



CYNGOR SIR Y FFLINT

**CYNLLUN GWELLA HAWLIAU
TRAMWY**

2018- 2028

Tabl Cynnwys

1	Cyflwyniad	4
1.1	Cefndir i'r ail CGHT	4
1.2	Yr ardal a gwmpasir	4
1.3	Dull	5
2	Gwerthuso'r gwaith o gyflawni'r CGHT cyntaf	6
2.1	Blaenoriaethau Allweddol yn CGHT 1	6
2.2	Cyflawni'r Datganiad o Weithredoedd	7
2.3	Asesiad o'r cynnydd a wnaed	10
3	Asesiad o gyflwr presennol y rhwydwaith a'i hanes cyfreithiol	11
3.1	Cyflwr presennol.....	11
3.1.1	Monitro.....	11
3.1.2	Cyfansoddiad y Rhwydwaith.....	11
3.1.3	Rhwyddineb Defnydd	12
3.2	Seilwaith	13
3.2.1	Polisiâu a phrotocolau.....	13
3.2.2	Celfi'r Rhwydwaith.....	13
3.2.3	Arwyneb.....	15
3.2.4	Hygyrchedd	16
3.3	Cynnal a chadw, atgyweirio a gorfodaeth	16
3.3.1	Polisiâu a phrotocolau.....	16
3.3.2	Adnoddau	17
3.3.3	Cyfrifoldebau cynnal a chadw.....	19
3.3.4	Adrodd, cofnodi a monitro prosesau.....	20
3.3.5	Cyfraddau adrodd a datrys	21
3.3.6	Gorfodaeth	23
3.3.7	Llwybrau a hyrwyddir	23
3.4	Cofnod cyfreithiol	24
3.4.1	Adnoddau	24
3.4.2	Polisiâu a phrotocolau.....	25
3.4.3	Gorchmynion Addasu Mapiau Diffiniol (DMMO)	26
3.4.4	Gorchmynion Llwybrau Cyhoeddus (PPO).....	26
3.4.5	Gorchmynion Addasu Digwyddiadau Cyfreithiol.....	26
3.4.6	Anomaledau.....	27
3.4.7	Cyfngiadau a Strwythurau Awdurdodedig.....	27
3.5	Hyrwyddo a gwybodaeth	27
3.5.1	Adnoddau	27
3.5.2	Gwybodaeth i ddefnyddwyr	28
3.5.3	Gwybodaeth i ymgeiswyr	28
3.5.4	Gwybodaeth ar gyfer rheolwyr tir	29
3.5.5	Llwybrau Teithio Llesol	29
4	Rheolaeth a threfniadaeth bresennol.....	30
4.1	Adnoddau.....	30
4.1.1	Staff.....	30
4.1.2	Y Gyllideb	31
4.1.3	FfMLI	31
4.1.4	Gynllun Gwirfoddoli Hawliau Tramwy	31
4.2	Cysylltiadau Allanol.....	32

5	Trosolwg strategol o'r rhwydwaith HTC a pholisïau cysylltiedig	33
5.1	Canfyddiadau rhanddeiliaid	33
5.1.1	Cerddwyr	33
5.1.2	Marchogion.....	34
5.1.3	Pobl ag Anableddau	34
5.1.4	Tirfeddianwyr a Ffermwyr.....	34
5.2	Cyd-destun polisi	36
5.2.1	Deddfwriaeth, strategaethau a dogfennau perthnasol ar lefel genedlaethol a sirol.....	36
4.2.2	Strategaethau a dogfennau perthnasol eraill.....	42
5.3	Cyd-destun perthnasol arall	43
5.3.1	Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000	43
5.3.2	Gwella cyfleoedd i gael mynediad i gyfleoedd hamdden awyr agored.....	44
6	Gwerthuso anghenion a chyfleoedd i'r dyfodol	45
6.1	Crynodeb o bwyntiau allweddol o asesiad o'r modd y cyflawnwyd CGHT 1 a chanfyddiadau rhanddeiliaid	45
6.2	Gwerthusiad o'r graddau y mae Hawliau Tramwy lleol yn diwallu anghenion y cyhoedd ar hyn o bryd ac i'r dyfodol.....	46
6.2.1	Diwallu anghenion ar hyn o bryd ac i'r dyfodol.....	46
6.2.2	Cyfleoedd	46
6.2.3	Polisïau a Gweithdrefnau	48
	FERSIWN NEWYDD O'R TABL DATGANIAD O WEITHREDOEDD	49

1 Cyflwyniad

1.1 Cefndir i'r ail CGHT

Cyhoeddwyd y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (CGHT) cyntaf yn Hydref 2008 ac mae'n cwmpasu'r cyfnod hyd ddiwedd Medi 2018. Mynegwyd yn y rhagair i'r CGHT, mai ei nodau oedd "...anelu at wella'r ffordd y caiff y rhwydwaith [hawliau tramwy] ei reoli, ei gynnal a'i gadw, ei amddiffyn a'i gofnodi, er mwyn sicrhau ei fod yn fwy agored a hygyrch i'r cyhoedd." Cynhwysir Crynodeb Gweithredol y CGHT cyntaf fel Atodiad 1.

Mae'r ail CGHT hwn yn asesu rhwydwaith 2018 ac yn gwerthuso'r cynnydd a wnaed ers 2008. Mae'n edrych yn benodol ar gynnydd yn erbyn Datganiad o Weithredoedd y CGHT cyntaf. Archwilir y cyddestun polisi presennol (2018), nodir meysydd blaenoriaeth a chyflwynir Datganiad o Weithredoedd mewn ffurf newydd.

Yng Ngorffennaf 2016, cyflwynodd Llywodraeth Cymru arweiniad i Awdurdodau Priffyrdd Lleol (APLI) yng Nghymru ar gyfer adolygu ac ailddrafftio CGHTau (Llywodraeth Cymru, 2016). Defnyddiwyd yr arweiniad hwn i gyfarwyddo'r gwaith o baratoi ail CGHT Sir y Fflint. Amlygodd y profiad gyda'r CGHTau cyntaf yr angen am fwy o hyblygrwydd yn y cynlluniau. Mae'r canllawiau'n awgrymu cynnwys 'Cynlluniau Cyflawni' fel atodiad i'r prif CGHT ac y dylid defnyddio'r rhain fel cyfle i adolygu cynnydd yn rheolaidd, yn enwedig yng ngolau unrhyw newidiadau sylweddol mewn amgylchiadau. Bwriedir cynhyrchu a chynnal Cynllun Cyflawni fel atodiad i'r CGHT hwn.

1.2 Yr ardal a gwmpasir

Mae'r Cynllun hwn yn cwmpasu Sir y Fflint. Ond dylid nodi bod dylanwadau eraill yn effeithio rhannau o Sir y Fflint ynghyd â'r gwaith o reoli'r rhannau hynny o'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus (HTC). Yn arbennig, mae Sir y Fflint yn cynnwys rhan o Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy (AHNE). Mae Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych yn cymryd cyfrifoldeb dros reoli HTC o ddydd i ddydd o fewn yr AHNE, er mai Cyngor Sir y Fflint, fel yr Awdurdod Priffyrdd Lleol, sy'n parhau i gymryd cyfrifoldeb cyffredinol dros y llwybrau yn ei ardal ac sy'n arwain ar unrhyw faterion nad ydynt yn rhai arferol, fel unrhyw gwestiynau ynghylch mapiau diffiniol.



1.3 Dull

Roedd y gwaith o baratoi'r cynllun yn cynnwys y meysydd gweithgaredd a ganlyn.

Ymchwil

Defnyddiwyd chwiliadau a dadansoddiadau o ddata, chwiliadau ar-lein ac adolygiadau o ddeunydd wedi'i argraffu i ddarparu'r dystiolaeth y tu ôl i'r cam asesu. Mae'r CGHT hwn yn gwneud defnydd helaeth o ddata a gofnodwyd ar System Rheoli Mynediad Cefn Gwlad (CAMS) digidol Sir y Fflint, sy'n cynnwys data arolwg o 33% o'r rhwydwaith a gynhaliwyd yn 2017, ynghyd ag arolwg o'r rhwydwaith cyfan o 2010. Ni chynhaliwyd unrhyw ymchwil pellach ar y tir ar gyfer y CGHT hwn.

Ymgynghori â rhanddeiliaid

Ymgynghorwyd â'r sefydliadau a ganlyn:

- Cangen Clwyd o Gymdeithas Ceffylau Prydain (BHS)
- Cynllun Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff, Canolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy
- Fforwm Anabledd Sir y Fflint
- FLVC
- FUW
- NFU
- CNC
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Cerddwyr Sir y Fflint (Swyddogion Llwybrau Troed)
- Walkabout Sir y Fflint

Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda:

- Fforwm Anabledd Sir y Fflint, Grŵp Ardal Shotton
- FUW Sir y Fflint
- Cerddwyr Sir y Fflint
- Walkabout Sir y Fflint

Derbyniwyd 40 o ymatebion i arolwg electronig a ddosbarthwyd i aelodau Cerddwyr Sir y Fflint a Walkabout Sir y Fflint.

2 Gwerthuso'r gwaith o gyflawni'r CGHT cyntaf

2.1 Blaenoriaethau Allweddol yn CGHT 1

Yn y CGHT cyntaf, nodwyd y meysydd canlynol fel blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2008-18:

1. Rheoli'r Rhwydwaith:
 - Datblygu, mabwysiadu a hyrwyddo cyfres o Bolisiau a Gweithdrefnau Gorfodi;
 - Chwilio am gyllid ychwanegol; a
 - Datblygu gwaith partneriaeth.
2. Rheoli:
 - Archwilio arferion rheoli er mwyn canfod arbedion o ran costau;
 - Gwella'r cydweithio ar hawliau tramwy ar draws adrannau ond hefyd gydag Awdurdodau Lleol eraill;
 - Creu system rheoli a monitro effeithiol; a
 - Datblygu'r defnydd o wirfoddolwyr.
3. Gwella'r rhwydwaith:
 - Gwella gwaith cynnal a chadw, gan ddefnyddio'r system flaenoriaethu a nodwyd gan y Fforwm Mynediad Lleol (FfMLI);
 - Gweithio gyda grwpiau o ddefnyddwyr i ganfod bylchau yn y rhwydwaith;
 - Mynd i'r afael â materion o ganlyniad i rannu'r HTC gan gefnffordd yr A55;
 - Gwella hygyrchedd; a
 - Hyrwyddo a rhoi cyhoeddusrwydd i hawliau tramwy sydd wedi'u gwella.
4. Arwyddion:
 - Gwella arwyddion, ynghyd â gwneud gwelliannau angenrheidiol ar y tir.
5. Clirio rhwystrau a gwella gorfodaeth:
 - Mynd i'r afael â rhwystrau ar y rhwydwaith, gan gynnwys llwybrau sydd wedi'u haredig ond nad ydynt wedi'u hadfer o fewn y terfyn amser penodol.
6. Map Diffiniol:
 - Ysgrifennu Polisiau a Gweithdrefnau sy'n adlewyrchu arferion da;
 - Paratoi Datganiad o Flaenoriaethau;
 - Penderfynu ar y ceisiadau sydd heb eu hateb am Orchmynion Addasu Mapiau Diffiniol (DMMO);
 - Rhoi rhaglen ar waith i gael gwared ar yr ôl-groniad o orchmynion addasu digwyddiadau cyfreithiol (LEMO);
 - Adolygu'r anomaledau sydd heb eu penderfynu;
 - Adolygu a blaenoriaethu'r ôl-groniad o geisiadau am Orchmynion Llwybrau Cyhoeddus (PPO); a
 - Datblygu polisi gorfodaeth cadarn i osgoi unrhyw waith datblygu ar lwybrau.
7. Gwella hygyrchedd:
 - Gwella hygyrchedd drwy ddilyn yr egwyddor 'mynediad llai cyfyngol'.
8. Datblygu llwybrau ceffyl a rhwydwaith beicio:
 - Dim cynigion penodol.
9. Cysylltu a datblygu'r rhwydwaith llwybrau ceffyl:
 - Datblygu llwybrau ceffyl cysylltiol a llwybrau aml-ddefnyddiwr.
10. Cerbydau modur oddi ar y ffordd:
 - Annog defnyddwyr i gael hyd i lwybrau troed a llwybrau ceffyl eraill i'w defnyddio ar gyfer eu gweithgareddau:
11. Cyhoeddusrwydd a hyrwyddo:

- Rhoi cyhoeddusrwydd a hyrwyddo gwaith y Cyngor ar hawliau tramwy.

Fe gafodd bob un o'r meysydd blaenoriaeth uchod eu datblygu'n gynigion manwl a oedd yn ffurfio Datganiad o Weithredoedd y CGHT cyntaf.

2.2 Cyflawni'r Datganiad o Weithredoedd

Roedd y Datganiad o Weithredoedd (DoW) yn cynnwys dangosyddion perfformiad gyda'r bwriad y gellid monitro cynnydd. Mae Tabl 3.1 yn darparu asesiad o'r modd y cyflawnwyd y DoW fesul gweithredoedd unigol.

ALLWEDD:

	Gweithredoedd a gwblhawyd
	Cynnydd rhannol
	Ychydig neu ddim cynnydd

Tasg	Dangosydd Perfformiad	Cynnydd hyd at 2018	Naratif
1.1 Rheoli Hawliau Tramwy	Adolygiad o sut y bydd yr holl elfennau yn y gwaith o reoli'r Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn gweithredu.	Adroddwyd i'r Cabinet (21/6/16) y cwblhawyd hyn yn 2012	Ni ddaethpwyd o hyd i gopi o'r adroddiad hwn. Mae proses ar waith bellach (Mai 2018) i adolygu'r drefn reoli unwaith eto.
1.2 Polisiau a Gweithdrefnau	Cyfes lawn o bolisiau a gweithdrefnau i fod mewn grym o fewn 5 mlynedd.	Wedi'i wneud yn rhannol.	Yn cael eu hadolygu a'u datblygu (Mai 2018).
1.3 Ceisiadau am Weithred	1. Canllawiau ar gyfer cyfathrebu a therfynau amser ar gyfer ymateb, archwilio a gweithredu. 2. Canran y 'Ceisiadau am Weithred' yr ymdrinnir â nhw yn unol â therfynau amser cytunedig.	1. Canllawiau corfforaethol ar gyfer ymateb, ddim targed ar gyfer archwilio, yn ymateb ac yn gweithredu yn ôl blaenoriaeth. 2. Ddim system yn ei lle i asesu hyn.	Gall CAMS ddarparu gwybodaeth i fesur llwyddiant ond mae targedau amser ar gyfer amryw gamau yn dal i fod angen eu penderfynu.
2.1 Datganiad o flaenoriaethau	Mabwysiadu Datganiad o Flaenoriaethau erbyn mis Hydref 2009	Cyflawnwyd	
2.2 Cael gwared ar yr ôl-groniad o geisiadau i addasu'r Map a'r Datganiad Diffiniol a phenderfynu ar geisiadau newydd o fewn terfynau amser diffiniedig	1. Nifer y ceisiadau a dderbynnir bob blwyddyn. 2. % y ceisiadau y penderfynir arnynt o fewn 12 mis 3. Nifer y ceisiadau sydd heb eu penderfynu 4. Penodi 3 swyddog Gorchmynion Llwybrau Cyhoeddus/Map Diffiniol	1. Ddim yn hysbys 2. Ddim yn hysbys 3. Ddim yn hysbys 4. Cyflawnwyd	1. Ni fyddir ond yn cyfrif fod cais wedi'i dderbyn pan fo wedi'i wneud yn briodol ac ar ôl hysbysu'r tîrfeddiannwr. 4. 3 swyddog HT ynghyd â swyddog gweinyddol, pob un gyda rôl mewn rheoli'r Map Diffiniol.
2.3 Ôl-groniad o Orchmynion	Nifer LEMO cyfreithiol i fod bron yn ddim erbyn 2012	75 LEMO wedi'u gwneud.	Roedd hwn yn darged gweithredol ond nid

Tasg	Dangosydd Perfformiad	Cynnydd hyd at 2018	Naratif
Addasu Digwyddiadau Cyfreithiol (LEMO)			oedd yn hysbys p'un a oedd wedi'i gyflawni ai peidio – canfuwyd problem o ran bod gorchmynion o ansawdd wael wedi dod i'r amlwg yn y broses, a hefyd o ran cyfyngiadau ar amser y swyddog cyfreithiol. Gwneir LEMO bellach un syth ar ôl DMMO.
2.4 Anomaleddau Map Diffiniol (DMS)	% y llwybrau, yn ôl hyd, nad ydynt yn cynnwys anomaleddau DMS	Lluniwyd rhestr o anomaleddau ond meddylir nad yw'n gyfredol.	Rhestr i'w diweddarau.
2.5 Prosesu Gorchmynion Llwybrau Cyhoeddus (PPO)	- Bydd pob achos yn cael ei adolygu - Nifer y ceisiadau am Orchmynion Llwybrau Cyhoeddus sydd heb eu hateb - Nifer y materion eraill sy'n mynnu Gorchymyn Llwybr Cyhoeddus	- Bydd 10 - Ddim yn hysbys	3 – nid yw'r nifer ar gael yn rhwydd.
3.1 Arwyddo pob hawl tramwy yn gywir pan mae'n gadael ffordd fetlin	- Rhaglen flynyddol i osod arwyddion % y rhwydwaith sydd ag arwyddion	1. Yn fwriad ond ddim yn darged sy'n cael ei fesur yn flynyddol.	1. Targed parhaus gyda chyllideb flynyddol o £1000 ar gyfer 10 arwydd y flwyddyn. Arferai fod yn gyllid penodol drwy CNC, hefyd cyllid drwy gynlluniau penodol fel Llwybr Clawdd Wat. Mae arwyddion yn dueddol o ddilyn clirio problemau eraill felly ni chodir arwyddion dim ond pan fo'r llwybr cyfan ar gael.
3.2 Mynegbyst ac arwyddion	% y llwybrau sy'n cyflawni'r maen prawf 'hawdd i'w ddefnyddio' ym methodoleg y BVPI o ran codi mynegbyst	Ddim yn hysbys	Heb gynnal arolwg ers 2015. Mae'r data BVPI sydd ar gael yn gyfyngedig.
3.3 Sicrhau bod arwyneb pob hawl tramwy mewn cyflwr priodol.	- Rhaglen gynnal a chadw flynyddol yn cael ei diweddarau a llwybrau'n cael eu blaenoriaethu - Nifer y llwybrau lle caiff llystyfiant tymhorol ei glirio'n flynyddol % y llwybrau sy'n cyflawni'r maen prawf 'hawdd i'w defnyddio' ym methodoleg y BVPI, o ran cyflwr yr arwyneb	- Ydy, ond hefyd yn adweithiol - Tua 3,800m - Ddim yn hysbys	- Defnyddir dull selio slyri ar llwybrau i atal dirywiad. - Nid yw'r rhaglen glirio flynyddol yn mynd i mewn i CAMS, dim ond problemau a adroddir.

Tasg	Dangosydd Perfformiad	Cynnydd hyd at 2018	Naratif
3.4 Pob pont mewn cyflwr diogel	1. Archwiliad chwe-misol 2. % y pontydd sydd mewn cyflwr boddhaol	1. Archwiliad bob 2 flynedd. 2. Nid yw'r ffigyrau ar gael o CAMS – gweler y system rheoli asedau Strydlun.	1. Mae'r Rheolwyr Gweithrediadau Strydlun yn delio â'r rhain ac yn cynnal arolwg blyneddol.
3.5 Sicrhau bod yr holl gelfi ar lwybrau yn ddiogel a chyfleus	1. Polisi'r "opsiwn lleiaf cyfyngol" 2. Cael gwared ar rwystrau i fynediad 3. % y celfi ar lwybrau sy'n hawdd eu defnyddio. 4. Problemau'n cael eu datrys o fewn terfynau amser diffiniedig	1. Cyflawnwyd 2. Cyflawnwyd 3. O CAMS 4. Rhestr o flaenoriaethau ond heb amserlen.	3. Gall CAMS gofnodi os mae strwythurau'n cydymffurfio â safonau BS a'u bod yn gyfeillgar i gŵn. 4. Gwneir gwaith cyn gynted â phosib yn ôl blaenoriaeth, yn enwedig yng nghyswllt peryglon.
3.6 Rhwystrau	1. Drafftio a gweithredu polisi a gweithdrefn orfodi o fewn 2 flynedd 2. Gweithredu rhaglen o gamau gorfodi o fewn 3 blynedd 3. Penodi Swyddog Gorfodi 4. %y llwybrau sy'n glir rhag rhwystrau	1. Anghyflawn 2. Naddo 3. Naddo 4. Ddim ffigwr realistig ar gael	1. Cynhyrchwyd polisi sy'n amlinellu'r drefn o ran blaenoriaeth yn unig. 3. Rôl yn cael ei rhannu rhwng sawl swyddog. 4. Ffigwr ddim ar gael drwy CAMS
3.7 Archwilio a monitro	1. Hyd yr hawliau tramwy cyhoeddus a archwilir bob blwyddyn.	1. Dim ond y llwybrau a hyrwyddir.	1. Gwneir hyn gan y gwasanaeth Parcmyn.
4.1 Gwella mynediad at yr arfordir	2. Dim dangosyddion wedi'u nodi		Cyfrifoldeb ar y cyd – Arolygwyr a Pharcmyrn y Gwasanaeth Cefn Gwlad.
4.2 Gwella mynediad i farchogion	1. Cynnal arolwg i weld beth yw maint y problem ac i nodi'r llwybrau y mae angen eu gwella 2. Nifer y giatiau a osodir ar lwybrau ceffyl bob blwyddyn 3. Hyd y llwybrau ceffyl cyhoeddus a'r cilffyrdd cyfyngedig a gaiff eu creu bob blwyddyn	1. Heb ei wneud 2. Ddim yn hysbys 3. <1km y flwyddyn	Rhai llwybrau ceffyl yn cael eu creu gyda chyfleusterau fel Croesfan Pegasus.
4.3 Gwell mynediad i feiciau	1. Nifer a hyd y llwybrau beiciau penodol newydd a gaiff eu hagor bob blwyddyn	1. Ddim ar HTC	Ceir swyddogion beiciau penodol mewn adrannau eraill felly ni welwyd hyn fel mater HTC. Mae hwn yn faes ar gyfer cydweithredu rhwng adrannau.
4.4 Gwella hygyrchedd i bawb	1. Cynnal archwiliad cynhwysfawr o'r rhwydwaith presennol a'r llenyddiaeth sydd ar gael i'w hyrwyddo 2. Cynllunio rhaglen wella ar gyfer llwybrau detholedig erbyn 2010	1. Cyflawnwyd, fel rhan o arolwg llawn. 2. Naddo 3. Naddo	3. Adweithiol yn unig.

Tasg	Dangosydd Perfformiad	Cynnydd hyd at 2018	Naratif
	3. Dylid archwilio “canran” o’r llwybrau bob blwyddyn ar ben yr arolygon BVPI i asesu pa mor addas ydynt i’w defnyddio ar gyfer pob mynediad.		
4.5 Gwella ac ehangu’r rhwydwaith	1. Paratoi cynllun sy’n nodi atebion i broblemau penodol, fel diffyg darpariaeth ar gyfer gwahanol ddefnyddwyr	1. Dim	1. Cymerwyd cyfleoedd i ychwanegu llwybr ceffyl.
4.6 Teithiau cerdded tywysedig a hyrwyddedig	Ni chafodd unrhyw rai eu nodi (er y cyflwynwyd sawl ‘cyfle’): a. Adolygu’r ddarpariaeth bresennol o ran deunyddiau cyhoeddusrwydd b. Darparu mwy o wybodaeth am hawliau tramwy a’r costau cysylltiedig c. Gofyn am gyngor gan y Fforwm Mynediad Lleol d. Darparu gwybodaeth am dir mynediad e. Darparu mapiau o safleoedd cefn gwlad a theithiau cerdded f. Defnyddio mwy o luniau / delweddau a mapiau g. Defnyddio’r wefan i hyrwyddo ‘taith gerdded y mis’ h. Cyfleusterau ‘ar-lein’ i adrodd am broblemau	a. Naddo b. Naddo c. Do d. Naddo e. Do f. Naddo g. Naddo h. Do	h. Do, ond cafwyd problemau wrth sefydlu hyn, ac ystyrir nad yw fyth yn 100% yn ddibynadwy.
4.7 Adroddiad Blyneddol	1. Adroddiad Blyneddol yn amlinellu’r cynnydd a wnaed o ran y targedau a’r dangosyddion perfformiad a nodwyd yn y CGHT	1. Cyhoeddwyd ddiwethaf yn 2014.	

2.3 Asesiad o’r cynnydd a wnaed

Ystyrir newidiadau i elfennau unigol y rhwydwaith HTC o fewn yr adrannau a ganlyn o’r CGHT hwn. Fodd bynnag, mewn termau cyffredinol, o’r 22 tasg a nodwyd, ymddengys fod saith wedi’u cwblhau neu wedi gwneud cynnydd sylweddol, tra gwnaed ychydig neu ddim cynnydd yn achos saith arall, ac mae wyth wedi gwneud cynnydd rhannol.

3 Asesiad o gyflwr presennol y rhwydwaith a'i hanes cyfreithiol

3.1 Cyflwr presennol

3.1.1 Monitro

Yn CGHT 2008, nodwyd y gallai arolygon rheolaidd gynorthwyo'r Awdurdod i gymryd ymagwedd ragweithiol tuag at reoli hawliau tramwy (a gallai hefyd ddarparu amddiffyniad yn erbyn hawliadau yn sgil esgeuluster). Fodd bynnag, ac eithrio arolygon o bontydd gan swyddogion Strydlun, ni roddwyd unrhyw drefn arolygu ar waith.

Ymgwymerwyd ag arolygon cyfyngedig at ddibenion Dangosydd Perfformiad Gwerth Gorau (BVPI)¹, yn defnyddio dull safonol sy'n edrych ar sampl pump y cant o'r rhwydwaith. Dyluniwyd yr arolwg i roi syniad o 'rwyddineb defnydd' rhwydwaith, ond oherwydd nifer fechan y llwybrau sy'n cael eu monitro bob blwyddyn, cafwyd fod y canlyniadau'n amrywio'n sylweddol o flwyddyn i flwyddyn. Er yn gywir ar raddfa genedlaethol, gwelwyd bod yr arolygon BVPI fawr o werth i Awdurdodau a chanddynt rwydweithiau llai, fel Sir y Fflint, a gwnaed y penderfyniad yn 2014 i roi'r gorau i gynnal yr arolygon blynyddol.

Erbyn hyn, ni chynhelir unrhyw waith monitro rheolaidd ar y rhwydwaith ac mae'n rhaid i unrhyw asesiad o'r rhwydwaith fod yn seiliedig ar gadw cofnodion cywir yn CAMS gydag arolygon gwaelodlin achlysurol o'r rhwydwaith cyfan neu ran ohono.

3.1.2 Cyfansoddiad y Rhwydwaith

3.1.2.1 Cyfansoddiad presennol

Mae'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus yn 2018 yn cynnwys tua 1800 o lwybrau cyhoeddus unigol fel a ganlyn:

Llwybr Troed	-	955.2km (88.3%)
Llwybr Ceffyl	-	114.6km (10.6%)
BOAT*	-	11.9km (1.1%) *(Cilffyrdd Sydd ar Agor i Unrhyw Draffig/'Byway Open to All Traffic')

Cyfanswm 1,082km (100%)

Yn gyffredin â'r mwyafrif o rwydweithiau yng Nghymru, mae'r rhan fwyaf o rwydwaith Sir y Fflint yn llwybrau troed, gyda llwybrau sydd ar gael i farchogion a beicwyr yn ddim ond 12% o gyfanswm y llwybrau. Dim ond ychydig dros 1% o'r rhwydwaith llwybrau cyhoeddus sydd ar gael i ddefnyddwyr cerbydau modur yn gyfreithlon.

3.1.2.2 Newid ers 2008

Yn 2008, roedd cyfansoddiad y rhwydwaith fel a ganlyn:

Llwybr Troed	-	938.5km (88.9%)
Llwybr Ceffyl	-	106.5km (10.1%)
BOAT	-	11.2km (1.06%)

Cyfanswm 1,056km (100%)

¹ Yn wreiddiol, BVPI 6.10, ac wedyn CMT/001, cyflenwyd y data gan awdurdodau lleol i'r Uned Ddata Llywodraeth Leol, a elwir bellach yn Data Cymru.

Yn ei hanfod, nid yw'r rhwydwaith wedi newid fawr ddim ers 2008. Mae'r rhwydwaith wedi cynyddu'n gyffredinol, ac roedd rhan fawr o hyn o ganlyniad i Lwybr Arfordir Cymru Gyfan a nifer yr hawliau tramwy a gofnodwyd a ychwanegwyd i'r rhwydwaith fel rhan o'r broses hon.

3.1.3 Rhwyddineb Defnydd

Yn Rhagfyr 2000, cyhoeddodd y Llywodraeth Ddangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau (BVPI) newydd a diwygiedig, yn unol â'r rhaglen i foderneiddio Llywodraeth Leol. Roedd Awdurdodau Gwerth Gorau dan ddyletswydd i geisio gwelliannau parhaus yn y modd yr oeddynt yn arfer eu swyddogaethau, ac roedd BVPI yn darparu fframwaith rheoli perfformiad ar gyfer adrodd cynnydd.

Y dangosydd perthnasol yw cyfanswm hyd hawliau tramwy, a oedd yn hawdd i'w ddefnyddio, fel canran o gyfanswm hyd yr holl hawliau tramwy. Mae 'hawdd i'w ddefnyddio' yn golygu:

- Ceir arwyddion neu fynegbyst ar lwybrau sy'n mynd oddi ar y ffordd a hynny i'r fath raddau sy'n angenrheidiol i alluogi defnyddwyr i ddefnyddio'r llwybr;
- Nid oes rhwystrau anghyfreithlon na phethau eraill (gan gynnwys llystyfiant yn tyfu drosodd) yn ymyrryd ar hawl tramwyo'r cyhoedd;
- Mae arwynebau'r llwybrau a rhwystrau cyfreithlon (e.e. camfeydd, giatiau awdurdodedig) mewn cyflwr da ac yn cyrraedd safon angenrheidiol i alluogi'r cyhoedd i ddefnyddio'r llwybr heb drafferth ddiangen.

I gyflawni'r safon 'hawdd i'w ddefnyddio', rhaid cofnodi bod llwybr yn pasio bob un o'r eitemau unigol sy'n rhan o'r prawf.

3.1.3.1 Presennol

O ganlyniadau arolwg 2017, nad oedd yn defnyddio sampl 'ar hap', roedd 43,4% o'r llwybrau, yn ôl eu nifer, wedi pasio'r safon 'hawdd i'w ddefnyddio'. Ond, yn ôl eu hyd, sef y mesur a fynnwyd ac sydd yn fwyaf perthnasol i ddefnyddwyr, roedd 34.1% o'r llwybrau a arolygwyd wedi pasio. Cynhaliwyd yr arolwg hwn fis Gorffennaf 2017, a gallai fod amrywiadau tymhorol sydd yn effeithio ar y canlyniadau.

Y gyfradd basio isel yw canlyniad cyfunol methiannau mewn sawl maes, a gellir cael darlun mwy defnyddiol o'r rhwydwaith drwy ystyried y gyfradd basio ar gyfer agweddau unigol.

Mae arwyddion ar lwybrau sy'n mynd oddi ar ymyl y ffordd yn faes sydd wedi cael sylw arbennig. Y gyfradd basio yn ôl nifer yr holl lwybrau yw tua 74%.

Mae'r gwaith o ddarparu mynegbyst ar lwybrau sy'n mynd oddi ar ymyl y ffordd yn fwy cyflawn, gyda chofnodi bod 98% o'r lwybrau yn 2017 wedi pasio'r agwedd hon.

Sgoriwyd bod camfeydd a giatiau wedi 'pasio' yn achos 77% o'r llwybrau (yn ôl eu nifer).

Mae mathau eraill o rwystr, fel rhwystrau neu ffensys ar draws llwybrau, neu eitemau ac adeiladau a godwyd arnynt, yn rheswm sylweddol pellach dros fethu yng nghyswllt rhwyddineb defnydd.


Mewn cyferbyniad â seilwaith llwybrau eraill, roedd 3.3% o'r llwybrau (yn ôl eu nifer) wedi methu oherwydd materion yn ymwneud ag arwynebau y llwybrau.

3.1.3.2 Newid ers 2008

Yn anffodus, nid yw'r cofnodion BVPI ar gyfer 2008 i 2014 (y flwyddyn y rhoddwyd y gorau i'r arolygon) ar gael, ac felly mae angen chwilio am gyhoeddiadau amgen sy'n cofnodi'r sgoriau blynyddol.

Yn 2008, cofnododd y CGHT bod 38% o'r rhwydwaith yn cyrraedd y safonau o ran rhwyddineb defnydd. Mae graff 3.1 isod yn dangos cyfartaledd o 52% sy'n hawdd i'w ddefnyddio. Fodd bynnag, o ystyried y bylchau yn y data, a'r dewis gwahanol iawn o ran y sampl yn 2017, ni fyddai'n ddoeth i or-ddadansoddi'r data hwn. Mae'r llinell dueddiadau, a ddangosir fel llinell ddotiog, yn awgrymu cyfradd welliant araf yn gyffredinol.

Graff 3.1



3.2 Seilwaith

3.2.1 Polisiâu a phrotocolau

Yn anffurfiol, mae'r tîm HTC yn dilyn yr egwyddor 'mynediad lleiaf cyfyngol', sef rhoi bylchau, giatiau a giatiau mochyn, lle'n bosibl, yn lle camfeydd. Mae hyn yn arfer gweithio da a dylid ei ymestyn a'i ffurfioli fel canllaw ar gyfer awdurdodi strwythurau newydd.

Ni roddwyd unrhyw bolisiâu ffurfiol ar waith ar gyfer celfi llwybr, er y tybir y bydd unrhyw eitemau a osodir yn cydymffurfio â'r Safon Brydeinig berthnasol, fel BS5709 ar gyfer bylchau, giatiau a chamfeydd.

3.2.2 Celfi'r Rhwydwaith


Cynhaliwyd arolwg llawn o'r rhwydwaith yn 2010, gyda'r holl ddata'n cael ei roi yn CAMS. Er nad oedd ar ddechrau cyfnod y CGHT, mae'r data hwn yn rhoi llinell sylfaen gadarn ar gyfer monitro unrhyw newidiadau dilynol i'r rhwydwaith. Ni wnaed unrhyw arolwg pellach o 100% o'r rhwydwaith, ond cynhaliwyd arolwg o 33% ohono yn 2017, sydd o bosib yn rhoi maint sampl cadarn ar gyfer allosod newidiadau ar draws y rhwydwaith cyfan. Fodd bynnag, nid arolwg ar hap oedd hwn, roedd

yn seiliedig ar ddetholiad o rwydweithiau cymuned gyfan a nifer o rwydweithiau rhannol a oedd, gyda'i gilydd, yn cynrychioli 33% o gyfanswm hyd y rhwydwaith (gweler Ffig. 3.1). Cyflwynodd hyn duedd wrth dethol nad oedd modd ei fesur, a oedd yn tanseilio dibynadwyedd y data fel sampl cynrychiadol.

Fodd bynnag, gan yr ail-arolygwyd nifer o rwydweithiau Cymunedol yn eu cyfanrwydd (yn seiliedig ar debygrwydd cyfanswm nifer yr eitemau a gofnodwyd), dylai fod yn bosib cymharu'r canlyniadau o'r cymunedau hyn yn hyderus, yn 2010 a 2017. Y cymunedau dan sylw yw:

Bwcle	Coed-llai
Cei Connah	Llanasa
Y Fflint	Yr Wyddgrug
Gwaenysgor	Yr Wyddgrug Wledig
Higher Kinnerton	Llaneurgain
Treffynnon	Trelawnyd

Ffig. 3.1: Dosbarthiad y llwybrau a arolygwyd, 2017



Mae Tabl 3.1 dros y dudalen yn cymharu'r canlyniadau ar gyfer y rhwydweithiau Cymunedol hyn a gafwyd yn 2010 a 2017 ar gyfer amryw fathau o seilwaith.

Tabl 3.1: Data seilwaith o gymunedau a atgynhyrchwyd

Eitem	2010*	2017*	% change
Camfeydd	1204	1224	+1.7%
Giatiau Mochyn	261	238	-8.8%
Bylchau	85	90	+5.9%
Giatiau (<1.2m)	53	54	+1.9%
Arwyddion ar Ymyl y Ffordd	732	829	+13.3%
Pontydd trawstiau	25	29	+16%
Pontydd eraill	118	158	+33.9%

* Niferoedd yr eitemau a gofnodwyd o fewn y 12 arolwg o gymunedau a atgynhyrchwyd. NID y ffigwr cyfanswm yw hwn ar gyfer y rhwydwaith.

Tabl 3.2 Data seilwaith ar gyfer y rhwydwaith cyfan

Eitem	2010 (Canlyniadau arolwg llawn)	Data 2018 (a gofnodwyd ar CAMS)	Newid
Camfeydd	3310	3316	+6
Giatiau Mochyn	493	506	+13
Bylchau	185	186	+1
Giatiau (<1.2m)	155	152	-3
Arwyddion ar Ymyl y Ffordd	1938	1992	+54
Pontydd trawstiau	58	58	0
Pontydd eraill	245	336	+91
Pob giât (ac eithrio giatiau mochyn)	1494	1501	+7

Nid yw'n bosibl dod i unrhyw gasgliadau pendant o'r data sydd ar gael, a bydd angen gwneud gwaith arolygu pellach i wneud cymhariaeth lawn rhwng data arolwg 2010 a'r hyn a gofnodir yn CAMS yn 2018. Fodd bynnag, gan ddefnyddio'r ffigyrau sydd ar gael, mae nifer camfeydd y stoc wedi cynyddu ychydig, mae nifer y giatiau mochyn wedi cynyddu ychydig mwy na niferoedd y camfeydd newydd ac mae niferoedd y bylchau a gofnodwyd bron yr un fath. Cafwyd gostyngiad ymylol yn nifer y giatiau bach ond mae'r ffigwr ar gyfer *Pob Giât (ac eithrio giatiau mochyn)* yn dangos cynnydd pellach. Mae niferoedd yr arwyddion ar ymyl y ffordd wedi cynyddu'n sylweddol ers 2010, fel y mae nifer y pontydd a gofnodwyd (ar wahân i bontydd trawstiau a oedd yn aros yr un fath). Mae'r cynnydd mewn *Pontydd Eraill* yn cyd-fynd yn dda â'r pwysigrwydd a roddir i osod pontydd yn yr Adroddiad Blynyddol.

3.2.3 Arwyneb

Fel y trafodwyd yn 3.1.3.1, dim ond 3.3% o'r methiannau o ran rhwyddineb defnydd yn arolwg 2017 oedd yn ymwneud â materion o ran arwyneb, sy'n awgrymu fod 96.7% o arwyneb y rhwydwaith mewn cyflwr derbyniol. Fodd bynnag, mae'r ffigwr hwn yn seiliedig ar is-set o'r arolwg rhannol, nad yw ar hap, felly ni ellir ond cael lefel gyfyngedig o hyder bod hwn yn wir adlewyrchiad o'r rhwydwaith cyfan. Er hynny, mae'r ffigwr yn awgrymu'n gryf bod arwyneb y rhwydwaith HTC yn gyffredinol mewn cyflwr derbyniol i dda. Mae hyn yn cyd-fynd yn dda gyda'r ffaith nad oedd y CGHT cyntaf yn cofnodi

bod materion o ran arwyneb yn ffynhonnell arwyddocaol o fethiannau BVPI, ac mae'n adlewyrchu hefyd yr ymdrech sylweddol a wneir yn flynyddol i glirio llystyfiant (gweler 3.4.3.1 isod).

3.2.4 Hygyrchedd

Roedd CGHT 2008 yn ymrwmo'r Sir i ddatblygu rhaglen ar gyfer gwella hygyrchedd y rhwydwaith (Tasg 4.4 yn y DoW). Fodd bynnag, ymddengys mai ychydig iawn o gynnydd a wnaed gyda hyn ar wahân i Bolisi anffurfiol o gymryd cyfleoedd i roi bylchau, giatiau neu giatiau mochyn yn lle camfeydd.

3.3 Cynnal a chadw, atgyweirio a gorfodaeth

3.3.1 Polisiâu a phrotocolau

Mabwysiadwyd sawl Polisi gan y Cyngor yn 2016, gan gynnwys ar gyfer arwain yr ymagwedd i'w dilyn ar gyfer blaenoriaethu ymdrechion o ran gwaith cynnal a chadw. Y Polisi yw dilyn hierarchaeth ar gyfer mynd i'r afael â materion yn seiliedig ar eu goblygiadau o ran diogelwch, yn ogystal â phoblogrwydd y llwybr - gan roi blaenoriaeth uwch, er enghraifft, i llwybrau a hyrwyddir. Dangosir yr hierarchaeth yn Nhabl 3.3:

Tabl 3.3: Blaenoriaeth o ran materion cynnal a chadw

Rhif Blaenoriaeth	Mater
1	Materion iechyd a diogelwch
2	Graddau'r defnydd a'r defnydd posibl, Llwybrau Cenedlaethol yn arbennig, llwybrau troed cenedlaethol ac a hyrwyddir ynghyd â llwybrau a gyhoeddir, e.e. AHNE a Llwybr Arfordir Cymru.
3	Llwybrau sy'n addas i bobl sy'n llai heini, ynghyd â defnyddwyr cadeiriau olwyn a rhai â nam ar eu golwg.
4	Llwybrau cylchol amldefnydd a llwybrau ceffyl a'r rheiny a nodir ar y cyd â Chymdeithas Ceffylau Prydain.
5	Teithiau cerdded, reidiau a gweithgareddau eraill er mwyn gwella iechyd
6	Llwybrau Cyswllt oddi ar y Llwybr Cenedlaethol ynghyd â llwybrau a hyrwyddir.
7	Llwybrau a gyhoeddir gan gynghorau cymuned, gan gynnwys mynedfeydd i ysgolion.
8	Llwybrau cylchol ac eraill a gyhoeddir gan Gyngor Sir y Fflint, gan gynnwys mynedfeydd i ysgolion.

Yn ymarferol, mabwysiadwyd system symlach lle mae materion yn cael eu blaenoriaethu fel rhai uchel, canolig neu isel wrth eu rhoi i mewn i CAMS, yn ôl gofynion y system. Mae blaenoriaethu materion yn cael ei wrthbwyso gan Bolisi anysgrifenedig o fynd i'r afael â materion eraill yn y cyffiniau ar yr un pryd â'r materion sy'n flaenoriaeth, gan wneud yr ymdrech gynnal a chadw yn fwy effeithlon, ond yn ei gwneud yn llai clir i ddefnyddwyr llwybrau o ran beth yw'r broses flaenoriaethu.

O ran gorfodaeth, datblygwyd hierarchaeth debyg ar gyfer blaenoriaethu. Unwaith eto, rhoddwyd y flaenoriaeth uchaf i faterion mewn perthynas ag iechyd a diogelwch, gyda'r dyhead y bydd cwynion yng nghyswllt iechyd a diogelwch yn cael eu harchwilio ar y diwrnod y gwneir y gŵyn ac y bydd

camau'n cael eu rhoi ar waith ar unwaith i liniaru'r broblem. Dangosir yr hierarchaeth lawn yn Nhabl 3.4 isod:

Tabl 3.4: Blaenoriaeth o ran materion gorfodaeth

Rhif Blaenoriaeth	Mater
1	Goblygiadau o ran iechyd a diogelwch
2	Problemau sy'n dibynnu ar amser, fel aredig a chnydio, torri gwrychoedd a thocio coed.
3	Rhwystrau bwriadol, diangen a diwyro.
4	Rhwystrau ar lwybrau a fu'n destun nifer uchel ac amrywiaeth eang o gwynion, gan gynnwys llwybrau ceffyl ac amldeffnydd arall, Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa a llwybrau eraill a hyrwyddir.
5	Rhwystrau a phroblemau ar lwybrau a fyddai'n arwain at fynediad dirwystr i bob llwybr.
6	Rhwystrau y byddai eu dileu yn arwain at welliant sylweddol i'r rhwydwaith hawliau tramwy.

Tra bo'r Polisi'n blaenoriaethu'r drefn ar gyfer mynd i'r afael â materion gorfodaeth, nid oes Polisi ar waith ar gyfer sut y byddir yn delio â'r materion hyn ac, yn ymarferol, bydd yr ymagwedd a fabwysiadir yn amrywio o swyddog i swyddog ac o achos i achos.

Mae opsiynau o ran gorfodaeth yn cynnwys cyflwyno hysbysiad ac ailgodi am waith a gyflawnir. Ni ddefnyddiwyd y pŵer hwn ddim ond mewn achosion prin, gyda llythyr swyddogol sydd, yn gyffredinol, yn sicrhau bod y mater wedi'i ddatrys. O ran rhai materion sy'n gofyn am gamau gorfodaeth, ceir yr opsiwn o erlyn hefyd. Mae Swyddog Cyfreithiol a Democrataidd y Sir wedi dirprwyo awdurdod i geisio erlyniad ond ni chafodd y pŵer hwn ei ddefnyddio.

Tasg 3.6 yn Natganiad o Weithredoedd y CGHT cyntaf oedd y bydd Polisi a Gweithdrefn orfodaeth effeithiol 'yn cael eu drafftio a'u rhoi ar waith o fewn dwy flynedd o gyhoeddi'r CGHT'. Ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth fod y dasg hon wedi'i chwblhau ac mae gorfodaeth yn dal i fod yn destun ymagweddau unigol ac felly anghysondebau.

Yng nghyfarfod ei Gabinet ar 21^{ain} Mehefin 2016, mabwysiadodd y Cyngor Bolisi y byddai arwyneb llwybrau cyhoeddus yn cael ei gynnal a chadw i safon ddigonol ar gyfer y traffig arferol sydd â'r hawl i ddefnyddio'r llwybr, hynny yw, bydd llwybr yn cael ei gynnal i safon sy'n addas ar gyfer cerddwyr a bydd llwybr ceffyl yn cael ei gynnal i safon sy'n addas ar gyfer cerddwyr a marchogion. Ni chyfeirir at feicwyr yng nghynnig y Polisi, ond dylid eu cynnwys fel rhan o'r 'traffig arferol' sydd â'r hawl i ddefnyddio llwybrau ceffyl. Ni roddwyd unrhyw ystyriaeth benodol i'r safon cynnal a chadw ar gyfer cilffyrdd sydd ar agor i unrhyw draffig.


3.3.2 Adnoddau

Cynhelir gwaith cynnal a chadw ffisegol y rhwydwaith yn bennaf gan y ddau Arolygwr Hawliau Tramwy, a leolir yn Tŷ Dewi Sant, Ewlo, ac sydd ag ystod gyflawn o gerbydau, tŵls a pheiriannau. Bydd yr arolygwyr yn gosod arwyddion, yn atgyweirio/gosod camfeydd newydd, yn codi giatiau mochyn, yn clirio coed sydd wedi syrthio, yn atgyweirio rhannau o lwybrau ynghyd â gwaith arall ar

raddfa debyg. Bydd tasgau mwy yn cael eu rhoi i gontractwyr, gyda'r contractau'n cael eu goruchwyllo gan yr Arolygwyr.

Mae'r Arolygwyr yn rhannu'r Sir rhyngddynt, fel y dangosir yn Ffigur 3.2.

Ffig. 3.2: Ardaloedd Arolygwyr Hawliau Tramwy



Mae'r ardal a amgylchynir mewn coch yn cael ei rheoli ar hyn o bryd gan yr Arolygwr Gorllewinol, a'r ardal a amgylchynir mewn glas yn cael ei rheoli gan yr Arolygwr Dwyreiniol.

Yn gyffredinol, cyfrifoldeb y tiffeddiannwr yw cynnal a chadw celfi llwybr - camfeydd neu giatiau. Bydd rhai tiffeddiannwyr yn atgyweirio strwythurau eu hunain neu'n gosod citiau camfeydd a ddarperir gan y Cyngor, ond gan nad yw gwaith hunanatgyweirio yn cael ei gofnodi o fewn CAMS, nid yw'n bosibl mesur yr ymdrech a wneir i wneud y gwaith hwn. Fel rheol, cyflenwir 10 i 12 cit y flwyddyn.

Defnyddir contractwyr hefyd i wneud gwaith clirio llystyfiant blyneddol mewn 400 lleoliad o gwmpas y Sir. Cyfanswm yr ardal sy'n cael ei chlirio yw tua 200,000m², gan dorri tair gwaith y flwyddyn.

Nid oes gan ddau Swyddog Mynediad Sir unrhyw rôl uniongyrchol o ran gwaith cynnal a chadw, er eu bod yn rhan hanfodol o'r broses adrodd, yn cofnodi problemau o fewn CAMS ac yn pasio'r

wybodaeth i'r Arolygwyr. Ond maent yn ganolog i'r broses orfodaeth, yn arwain ar yr holl faterion yng nghyswllt gorfodaeth ym maes hawliau tramwy.

Yn ogystal, mae gan Barcmyr y Gwasanaeth Cefn Gwlad fewnbwn mewn rhai rhannau o'r rhwydwaith, yn arbennig, Llwybr Arfordir Cymru, lle maent wedi arwain ar ei ddatblygiad yn y sir, ac mewn gwaith cynnal a chadw ar lwybrau a hyrwyddir. Mae'r parcmyn yn gweithio'n rheolaidd gyda gwirfoddolwyr, gan gynnwys ar y llwybr arfordir a llwybrau a hyrwyddir.

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae Sir y Fflint yn cynnwys rhan o AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. Trefnir gwaith cynnal a chadw dydd i ddydd yr HTC o fewn yr AHNE drwy Wasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych mewn cydweithrediad â'u cydweithwyr yn Sir y Fflint. Mae gan yr AHNE raglen wirfoddolwyr weithredol gyda gwirfoddolwyr yn gweithio ar hawliau tramwy'n rheolaidd.

Adnodd pwysig ar gyfer rheoli gwaith atgyweirio a chynnal a chadw'r rhwydwaith yw CAMS. Roedd hwn ar gael i'r holl staff HTC yn 2010, ac fe'i defnyddir bellach fel yr offeryn cadw cofnodion a rhaglennu gwaith ar gyfer Sir.

3.3.3 Cyfrifoldebau cynnal a chadw

Mae cyfrifoldeb dros gynnal a chadw HTC yn amrywio o agwedd i agwedd, fodd bynnag, yn y bôn, mae gan yr Awdurdod Prifffyrdd Lleol, Cyngor Sir y Fflint, ddyletswydd i sicrhau gwaith cynnal a chadw boddhaol ar y rhwydwaith HTC, ac i fynnu a diogelu hawliau'r cyhoedd.

3.3.3.1 Rheoli llystyfiant

Mae cyfraith prifffyrdd yn rhannu baich y gwaith o reoli llystyfiant rhwng yr Awdurdod Prifffyrdd Lleol (APLI) a'r tirfeddiannwr. Yn gyffredinol, mae'r APLI yn gyfrifol am gynnal a chadw arwyneb llwybr cyhoeddus, gan gynnwys rheoli isdyfiant, tra bo'r tirfeddiannwr yn gyfrifol am ordyfiant o ochrau llwybr. Fodd bynnag, yn achos llwybr ar draws cae, cyfrifoldeb y ffermwr yw sicrhau nad yw cynydau'n cael eu tyfu ar y llwybr.

Mae Cyngor Sir y Fflint yn defnyddio contractwyr i glirio llwybrau tair gwaith yn ystod y tymor tyfu. Mae Arolygwyr HTC y Sir yn clirio tua 4km mewn ymateb i broblemau a adroddir.

3.3.3.2 Arwyneb llwybrau

Yn gyffredinol, cyfrifoldeb yr APLI yw cynnal a chadw arwyneb llwybr, ond cyfrifoldeb y ffermwr yw adfer llwybr ar draws cae o fewn saith niwrnod o'i aredig, neu o fewn 24 awr o unrhyw waith amaethu dilynol.

Nid oes unrhyw drefn gynnal a chadw flynyddol ar gyfer gwaith atgyweirio arwynebau, cynhelir gwaith mewn ymateb i adrodd problemau. Gellir gwneud mân waith atgyweirio yn y fan a'r lle, ond bydd gwaith mwy yn cynnwys trefnu gwaith drwy contractwyr.

3.3.3.3 Celfi llwybr

Os ydynt wedi'u hawdurdodi, mae camfeydd a giatiau ar HTC yn rhwystrau cyfreithlon er budd gweithgareddau ffermio. Fel y cyfryw, cyfrifoldeb y tirfeddiannwr yn bennaf yw gwaith cynnal a chadw, er bod yr APLI yn gorfod cynnig cymorth o o leiaf 25%, gan gydnabod bod budd i'r cyhoedd mewn cynnal a chadw camfeydd a giatiau mewn cyflwr da. Yn ymarferol, bydd y Cyngor yn gyffredinol yn cymryd cyfrifoldeb llawn am atgyweirio neu osod camfeydd newydd ar ôl adrodd problemau, gan gymryd y cyfle i geisio gosod giatiau neu giatiau mochyn yn lle camfeydd, gyda chytundeb y

tirfeddiannwr. Fodd bynnag, cyflenwir citiau camfeydd yn achlysurol i dirfeddianwyr eu gosod eu hunain.

Yn ystod 2016/17, cyflenwyd deg cit camfa. Yn ogystal, fe gafodd tua 69 o gamfeydd eu hatgyweirio neu gosodwyd rhai newydd yn eu lle, a gosodwyd 15 giât mochyn gan yr Arolygwyr Hawliau Tramwy neu contractwyr.

Cyfrifoldeb APLI yw gosod arwyddion yn lle mae llwybr yn gadael ffordd, ynghyd â mynegbyst ar hyd llwybr. Gosodwyd 29 arwydd yn ystod 2016/17 a chodwyd 120 o fynegbyst.

Cyfrifoldeb yr APLI yw'r pontydd ar lwybrau fel arfer, onid yw'r tirfeddiannwr wedi dewis gosod strwythur mwy sylweddol, er enghraifft, lle mae pwynt croesi nant ar gyfer cerbydau yn cael ei ddefnyddio gan lwybr hefyd. Mae'r gwaith o reoli stoc pontydd y Sir ar HTC, ac eithrio pontydd trawstiau, yn cael ei ddirprwyo i beirianwyr pontydd o fewn adran Strydlun yr Awdurdod.

Nid oes cofnod ar gael o'r celfi sydd wedi'u gosod ers 2008, ond mae detholiad o'r eitemau mwyaf sylweddol o'r cofnod ar gyfer 2013/14 (y cofnod diwethaf sydd ar gael), ar gyfer ardaloedd yr Arolygwyr Gorllewinol a Dwyreiniol, i'w gweld yn Nhabl 3.5 isod:

Tabl 3.5: Celfi llwybr sydd wedi'u gosod, eu hatgyweirio neu eu hadnewyddu rhwng 2008 a 2014

Math	Ardal Orllewinol	Ardal Ddwyreiniol
Arwyddion	68	8
Arwyddion cyfeiriad	100	20
Mynegbyst	98	150
Camfeydd	16	38
Stepiau camfeydd	26 wedi'u hatgyweirio	118 wedi'u hatgyweirio
Stepiau	29	25
Giatiau mochyn	13	2
Giatiau ceffyl	5	
Pontydd trawstiau		11
Pontydd eraill	3 wedi'u hatgyweirio	1 wedi'u hatgyweirio
Waliau cynnal (metrau)	25	40

3.3.4 Adrodd, cofnodi a monitro prosesau

Fel y nodwyd yn 2008, mae'r gwaith ar HTC yn Sir y Flint yn adweithiol i raddau helaeth. Yn y CGHT cyntaf, nodwyd "nid oes trefn arolygu ar waith heblaw am yr arolygon dangosyddion perfformiad gwerth gorau blynyddol, felly mae'r mwyafrif o'r gwaith yn tarddu o gwynion gan bobl eraill." Mae hyn yn parhau i fod hyd yma ar wahân i'r ffaith, gan y rhoddwyd y gorau i arolygon BVPI yn 2014, bod hyd yn oed mwy o ddibyniaeth ar adroddiadau gan y cyhoedd.

Fe gafodd adroddiadau *Ad hoc* gan y cyhoedd eu hategu yn 2017 gan arolwg rhannol (33%) o'r rhwydwaith, ond nid oes unrhyw drefn fonitro reolaidd yn ei lle ar hyn o bryd.

Mae'r holl faterion a adroddir, neu a nodir yn ystod gwneud gwaith arall, yn cael eu cofnodi yn CAMS gan y swyddog sy'n eu derbyn. Bydd pob mater yn cael blaenoriaeth uchel, ganolig neu isel, yn seiliedig yn bennaf ar oblygiadau iechyd a diogelwch a/neu p'un a yw'n hanfodol eu gwneud o fewn cyfnod amser penodol. Bydd y materion yn cael eu neilltuo i'r Arolygwr perthnasol, yn seiliedig ar ardaloedd, ac yna'n ymddangos ar restr yr Arolygwr dan sylw o 'bethau i'w gwneud' a gynhyrchir gan CAMS.

Gall defnyddwyr llwybrau ddefnyddio'r system adrodd ar-lein i gofnodi materion ar unrhyw adeg. Y tro nesaf y bydd swyddogion hawliau tramwy yn logio i mewn i CAMS, byddant yn cael eu hysbysu ynghylch adroddiadau a dderbyniwyd, ond mae angen iddynt 'dderbyn' yr adroddiadau ac yna eu neilltuo ar gyfer Arolygwr. Nid cyfrifoldeb un unigolyn yw gwirio CAMS am adroddiadau ar-lein, ac mae'n bosibl y gallai hyd at bump o bobl agor adroddiad. Er y diffyg cyfrifoldeb diffiniedig hwn, adroddir fod y system yn gweithio'n dda.


Wrth ddelio â materion, ond yn aml cyn eu datrys, bydd yr adroddwr gwreiddiol yn derbyn e-bost awtomatig yn ei hysbysu bod y mater yn cael sylw. Gellir achosi peth dryswch os yw CAMS yn cynhyrchu neges 'cwbllhawyd', er enghraifft, pan fo sefyllfa beryglus wedi'i gwneud yn ddiogel – efallai drwy gau llwybr dros dro – yn hytrach na'i datrys yn llawn.

Gwelliant gwerth chweil i'r ymateb awtomatig gan CAMS fyddai iddo gynnig ymatebion mwy teilwredig sy'n briodol i'r camau a gymerwyd a ph'un a oes angen cymryd camau pellach ai peidio.

Nid oes unrhyw system awtomatig ar waith ar gyfer diweddar adroddwyr sydd wedi ffonio i mewn neu e-bostio adroddiad am fater, er ei fod wedi'i gofnodi ar CAMS gan swyddog. Bydd angen i'r swyddog ffonio neu anfon e-bost er mwyn diweddarw'r adroddwr.

3.3.5 Cyfraddau adrodd a datrys

Graff 3.2



	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017
Materion wedi'u datrys	758	647	605	514	547	518	427	403
Materion wedi'u cofnodi	5709	501	416	378	416	419	385	1109

O.N. ni ddefnyddiwyd y ffigyrau mewn gwyrdd gan eu bod wedi'u chwyddo gan ganlyniadau arolwg 2010 o'r rhwydwaith llawn, ynghyd â chanlyniadau arolwg 33% 2017, yn hytrach na bod yn gynrychioladol o nifer y materion sy'n codi'n 'naturiol', fel mewn blynnyddoedd eraill.

Mae Graff 3.2 yn dangos y tueddiadau o ran niferoedd y materion sydd wedi'u cofrestru yn CAMS fesul blwyddyn, ynghyd â nifer y materion a oedd wedi'u datrys yn yr un flwyddyn. Gellir gweld bod niferoedd y materion yr ymdriniwyd â hwy bob blwyddyn, yn gyson, wedi bod yn uwch na nifer y materion newydd oedd wedi'u cofnodi, sy'n awgrymu cynnydd o ran mynd i'r afael â'r ôl-groniad o faterion a gofnodwyd gyntaf yn 2010. Fodd bynnag, mae cydgyfeiriant y ddwy linell dueddiadau'n


awgrymu bod nifer y materion sy'n cael eu datrys bob blwyddyn yn lleihau, a phe bai'r duedd hon yn parhau, disgwylid y byddai'r ôl-groniad yn dechrau cynyddu unwaith eto. Yn ymarferol, mae'r ddwy gromlin yn fwy tebygol o fod yn cydgyfeirio mewn modd sefydlog tua sefyllfa, dros ychydig o flynyddoedd, lle bydd niferoedd y materion sy'n cael eu cofnodi a'u datrys bron yn gyfartal.

Fodd bynnag, dylid cadw mewn cof nad yw cyfradd flynyddol yr adroddiadau am faterion yr un fath a chyfanswm nifer y materion a adroddwyd sydd yn y system. Cyfanswm nifer y materion oedd wedi'u cofnodi hyd at ddiwedd 2017 oedd 9,333. Cyfanswm nifer y materion a oedd wedi'u datrys yn yr un cyfnod oedd 4,419. Mae hyn yn awgrymu bod ôl-groniad o tua 4,900 o faterion nad ydynt wedi'u datrys wedi'u cofnodi ar CAMS. Ar y lefel bresennol, a gan dybio bod yr ôl-groniad yn gynrychioladol o'r mathau o faterion a dderbynnir fel arfer, byddai'n cymryd rhwng deg ac un mlynedd ar ddeg i fynd i'r afael â'r ôl-groniad cyfan, hyd yn oed os nas adroddir unrhyw faterion eraill. Os bydd materion newydd yn parhau i gael eu hadrodd ar y cyfraddau presennol, byddai'r amser a gymerir i ddelio â'r ôl-groniad, gydag adnoddau presennol, yn nes at 40 mlynedd. Yn CGHT 2008, nodwyd bod ôl-groniad a amcangyfrifwyd o 2840 o dasgau cynnal a chadw, ond gyda lefel uchel o ansicrwydd o ran yr union nifer.

Felly, y neges sy'n deillio o'r ffigyrau hyn yw ei bod yn bosib bod lefel bresennol yr ymdrech yn ddigonol i gynnal y status quo yn erbyn materion sy'n dod i mewn, ond er mwyn mynd i'r afael â'r ôl-groniad o fewn oes y CGHT hwn, bydd angen o leiaf ddwywaith gymaint o adnoddau.

Mae Graff 3.3, isod, yn edrych ar yr amser datrys cymedrig ar gyfer materion, sy'n cael eu trefnu yn ôl y flaenoriaeth a roddwyd iddynt ar adeg eu cofnodi. Mae'r llinell dueddiadau ar gyfer y cyfartaledd cyffredinol ar draws yr holl flaenoriaethau yn dangos yn glir y cafwyd gostyngiad sylweddol (tua 40%) yn yr amser a gymerwyd i ddatrys materion ers 2011. Er yr anwadalrwydd flwyddyn ar ôl blwyddyn, adlewyrchir y duedd gyffredinol hon ar draws yr holl faterion, pa flaenoriaeth bynnag a roddir iddynt.

Graff 3.3



	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017
Uchel	32.64	13.31	23.29	36.77	17.86	28.73	12.21
Canolig	43.32	38.33	29.96	37.83	21.91	21.64	24.54
Isel	17.31	2.87	0.69	0.62	19.62	3.09	5.83

Cyfartaledd	39.22	31.9	27.98	36.94	21.22	22.15	23.82
-------------	-------	------	-------	-------	-------	-------	-------

Mae ystyried Graffiau 3.2 a 3.3 gyda'i gilydd yn datgelu sefyllfa sy'n ymddangos yn anghyson lle mae cyfraddau datrys wedi gwella'n sylweddol, ond mae nifer y materion sy'n cael eu datrys bob blwyddyn yn lleihau. Gall hyn fod o ganlyniad i'r system gofnodi neu'r modd y'i defnyddir, ond dylid rhoi ystyriaeth bellach o ran p'un a yw hyn yn ddarlun cywir ai peidio. Un eglurhad posibl am yr arafu ymddangosiadol hwn yw'r ffaith, yn fuan ar ôl yr arolwg o'r rhwydwaith llawn yn 2010, cafwyd cyfran uwch o faterion y gellir delio â hwy'n gyflymach ar gyfartaledd na'r gyfres o faterion a adroddwyd fel arfer. Os felly, disgwylid y byddai'r gyfradd ddatrys yn cynyddu unwaith eto yn dilyn arolwg 2017 a'i gasgliad pellach o faterion y gellir eu datrys yn gyflym.

3.3.6 Gorfodaeth

Ym Mehefin 2018, roedd 331 o rwystrau wedi'u cofnodi ar CAMS. Roedd y data BVPI a drafodwyd yn 3.1.3.1 yn awgrymu bod 32% o lwybrau'r rhwydwaith (yn ôl nifer) yn dioddef rwystrau. Gan dybio nad oes ond un rwystr ar bob llwybr cyswllt (sef yr hyd o lwybr rhwng un gyffordd llwybr neu ffordd a'r nesaf) a gyda hyd llwybr cyswllt cyfartalog o tua 307m yn effeithio tua 102km o'r rhwydwaith - neu 9.4% o ran hyd.

Roedd y CGHT yn nodi'r angen am Swyddog Gorfodaeth. Mae'r angen hwnnw'n dal i gael ei gydnabod, ond, hyd yma, nid oes unrhyw swyddog o'r fath wedi'i benodi. Mae'r rôl orfodaeth yn rhan o gylch gorchwyl y Swyddogion Hawliau Tramwy, a rhwng y ddau swyddog, anfonwyd 12 llythyr yn 2017/18. Anfonir y mwyafrif o lythyrau mewn ymateb i gwynion a dderbynnir, ond anfonir rhai llythyrau hefyd o safbwynt ataliol, lle ystyrir fod lefel uchel o berygl y bydd sawl achos o beidio â chydymffurfio.

O ran 2008, y rwystrau mwyaf cyffredin sy'n gofyn am gamau gorfodaeth yw: ffensys neu rwystrau eraill ar draws llwybrau; giatiau wedi'u clymu neu gloi; gordyfiant; cnydau ac adeiladau.

3.3.7 Llwybrau a hyrwyddir

Mae Tabl 3.6 yn crynhoi'r digwyddiadau, y llwybrau a'r cyhoeddiadau a ganfuwyd yn dilyn ymholiadau a chwiliadau ar-lein. Mae'r tabl yn cynnwys nifer y digwyddiadau sy'n cynnwys teithiau cerdded tywysedig yn Sir y Fflint, gan gynnwys rhaglen 'Digwyddiadau Cefn Gwlad' y Gwasanaeth Cefn Gwlad ar gyfer 2018.

Tabl 3.6: Llwybrau a digwyddiadau a hyrwyddir

Llwybrau a hyrwyddir		
Enw	Dyddiad agor	Nodiadau
Llwybr Cenedlaethol Llwybr Clawdd Offa	1971	Llwybr 60-milltir drwy ardal ffin Cymru / Lloegr. Wedi'i sefydlu ac yn rhedeg fel Llwybr Cenedlaethol. Rhan fer yn unig yn Sir y Fflint.
Llwybr Arfordir Cymru	2012	Llwybr 861-milltir o amgylch arfordir Cymru. Wedi'i sefydlu ac yn cael ei reoli yn Sir y Fflint gan Barcryn y Gwasanaeth Cefn Gwlad.
Llwybr Cyswllt Cymru	2018	Yn ymestyn dros ddeunaw milltir ac yn mynd drwy bedair sir, mae Llwybr Cyswllt Cymru bellach yn cysylltu â Llwybr Arfordir Cymru drwy gyrion deheuol/dwyreiniol Sir y Fflint.
Llwybr Dyfrdwy	2005	Hyrwyddir yn breifat, llwybr 127-milltir sy'n cysylltu â Llwybr Dyffryn Dyfrdwy yn Sir Ddinbych ac sy'n cychwyn/gorffen yn y Fflint.
Taith Pererin Gogledd Cymru	2015	Llwybr pererindod blynyddol 134-milltir gyda manylion ar-lein er mwyn i gerddwyr dywys eu hunain. Yn cychwyn yn Ffynnon Gwenffrewi, Treffynnon.

Llwybrau a hyrwyddir		
Enw	Dyddiad agor	Nodiadau
Llwybr Gwenffrewi	2004	Mae'r llwybr 14-milltir yn cysylltu Eglwys Gadeiriol Llanelwy, Sir y Fflint gyda Ffynnon Gwenffrewi yn Nhreffynnon, Sir y Fflint. Cyhoeddir arweinlyfr yn breifat.
Y Llwybr Sistersiaid	1998	650 milltir o amgylch Cymru, gan gynnwys Sir y Fflint. Sefydlwyd gan Gyfeillion y Llwybr Sistersiaid.
Llwybr Treftadaeth Llwybr Clawdd Wat	2008	Llwybr 6-milltir yn dilyn gwrthglawdd Clawdd Wat. Cafodd ei sefydlu ac mae'n cael ei redeg gan Gymdeithas Clawdd Wat.
NCN5	2018?	Llwybr beiciau drwy Sir y Fflint a ddatblygwyd ac a hyrwyddwyd gan Sustrans. Mae'r llwybr 372-milltir hwn yn cynnwys rhan ar y ffordd drwy Sir y Fflint, ond ceir cynigion ar gyfer llwybr arall ar yr arfordir heb draffig.
Teithiau Cerdded Gwledig yn Sir y Fflint	2006	29 llwybr cerdded wedi'u graddio (mae gan 19 yr opsiwn i wneud 'taith gerdded 10 munud). Yn cynnwys gwybodaeth am lefel yr hygyrchedd a'r agosrwydd i fannau parcio. Angen ei ddiweddarau i gynnwys cysylltiadau ar-lein ar gyfer gwybodaeth ar dudalennau'r mapiau - e.e. ar gyfer amserlenni bysiau. Mae angen ei ail-ddylunio i hwyluso argraffu llwybrau unigol yn rhwydd, efallai gyda galluogrwydd data GPS. Yn cael ei gynnal gan Barcmyr y Gwasanaeth Cefn Gwlad.
Digwyddiadau		
Digwyddiadau Cefn Gwlad	2018	Cyhoeddir gan Wasanaeth Cefn Gwlad Sir y Fflint. Yn cynnwys mwy na 50 o ddigwyddiadau, yn aml yn cynnwys teithiau tywsedig, y mae rhai ohonynt yn defnyddio HTC.
Gŵyl Gerdded Prestatyn a Bryniau Clwyd	2018	28 taith gerdded a arweinir am ddim ar gyfer amryw lefelau o ffitrwydd, a drefnir gan y tîm AHNE, gyda rhai rhannau'n mynd i mewn i Sir y Fflint.
Gŵyl Gerdded Teuluoedd Sir y Fflint	2016	Trefnir gan Gyngor Sir y Fflint ond nid yw wedi'i gynnal ers 2016.

O'r tabl uchod, ymddengys bod cyfoeth o lwybrau cerdded yn cael eu hawgrymu o fewn y Sir neu sy'n pasio drwyddi. Fodd bynnag, mae'n ymddangos hefyd mai ychydig iawn sydd ar gael yn benodol ar gyfer cerddwyr anabl. Yn yr un modd, nid oes unrhyw lwybrau ceffyl a hyrwyddir, ar gyfer beicwyr neu farchogion.

3.4 Cofnod cyfreithiol

Y dyddiad perthnasol ar gyfer DMS Sir y Fflint yw 31/10/1978. Ond mae'r DMS yn adnodd sy'n newid, sy'n destun adolygu a diwygiadau parhaus. Mae nifer y gorchmynion addasu sy'n newid y DMS yn newid dros amser. I leihau nifer y dogfennau ar wahân sy'n cynnwys y DMS, bydd awdurdodau weithiau'n ymgymryd ag ymarfer cyfuno, gan gynhyrchu DMS newydd gyda 'dyddiad perthnasol' newydd. Mae Sir y Fflint wedi adolygu a chyfuno ei DMS ar ddau achlysur: yn 1963, ac unwaith eto yn 1976, gan arwain at y DMS presennol gyda'i ddyddiad perthnasol o 1978.

3.4.1 Adnoddau

Mae'r DMS a chyflwyniadau gwreiddiol Cyngorau Cymuned yn cael eu dal yn Neuadd y Sir yn yr Wyddgrug, ac mae copi o'r Map Diffiniol yn cael ei ddal yn Swyddfa Cofnodion Penarlâg.

Roedd y CGHT blaenorol yn argymhell y dylid penodi tri swyddog ychwanegol i helpu i ddelio â'r ôl-groniad o waith DMS, yn ogystal â diogelu gwasanaethau Swyddog Cyfreithiol llawn amser. Fodd bynnag, nid oedd yn bosibl diogelu'r lefel hon o staff ychwanegol.

Nid oes unrhyw 'Swyddog Map Diffiniol' ar gyfer Sir y Fflint; mae'r DMS yn cael ei gynnal gan gyfuniad o'r **ddau Swyddog Hawliau Tramwy, y Swyddog Technegol a'r Arweinydd Tîm Hawliau Tramwy**, gyda chymorth cyfreithiol gan adain Cyllid, Cyfreithiol a Gwasanaethau Democratig y Cyngor. Dim ond rhan o rôl y Swyddogion Hawliau Tramwy yw'r gwaith DMS ac, mewn gwirionedd, nid oes gan y Cyngor ddim mwy nag un swyddog cyfatebol amser llawn i reoli'r DMS.

3.4.2 Polisiâu a phrotocolau

Mae Cylchlythyr 5/93 y Swyddfa Gymreig ar hawliau tramwy yn argymhell bod y Cyngor Sir yn gyson yn cyhoeddi datganiad sy'n nodi sut y bydd yn cadw'r map diffiniol a'r datganiad yn gyfredol. Mabwysiadwyd datganiad o flaenoriaethau gan y Cyngor ar 21^{ain} Mehefin 2016, ar ôl ymgynghori â'r Fforwm Mynediad Lleol (FfMLI), ac mae'n seiliedig ar ymagwedd hierarchaidd sy'n nodi'r pwysigrwydd cymharol y bydd y Cyngor yn ei roi i orchmynion llwybr cyhoeddus a mapiau diffiniol. Rhennir yr hierarchaeth yn saith categori o flaenoriaeth ddisgynnol, fel y dangosir yn Nhabl 3.7. Fe'i dyfeisiwyd i rancio'n uchel y materion hynny a oedd yn debygol o fod yn fwyaf o frys: ac felly'r flaenoriaeth uchaf a roddwyd i lwybrau sydd mewn perygl yn y dyfodol agos o gael eu 'colli' drwy waith datblygu a chynlluniau a dargedwyd ar gyfer cymorth grant. Yn rancio'n uchel hefyd y mae'r llwybrau hynny sydd wedi'u rhwystro gan ddatblygiadau preswyl hirdymor. Efallai na fu'r llwybrau ar agor i'r cyhoedd ers blyneddau lawer, ond maent yn dal i fodoli'n gyfreithiol, a gallant ddifetha unrhyw werthiant posibl o eiddo.

Mae'r datganiad hefyd yn cynnwys ymagwedd y Cyngor tuag at flaenoriaethu Gorchmynion Llwybrau Cyhoeddus (GLIC), sef gorchmynion a wneir i newid llwybrau er hwylustod yn hytrach nag o ganlyniad i ddarganfod tystiolaeth.

Tabl 3.7: Blaenoriaethau ar gyfer Gorchmynion Addasu Mapiau Diffiniol a Gorchmynion Llwybrau Cyhoeddus

Rhif Blaenoriaeth	Ymateb / cam gweithredu
1	Llwybrau sydd mewn perygl o gael eu colli drwy ddatblygu yn y dyfodol agos (h.y. yn y cyfnod cais cynllunio)
2	Gorchmynion sy'n effeithio llwybrau a dargedir ar gyfer cyllid allanol, y mae'n rhaid ei wario o fewn cyfnod amser penodol, a lle mae modd cyflawni'r cynigion o fewn y cyfnod amser hwnnw.
3	Llwybr(au) sy'n cael eu rhwystro gan dai, y mae angen gorchmyn neu orchmynion i ddatrys y sefyllfa.
4	Ceisiadau am orchmynion addasu
5	Anomaledau mapio

6	Gorchmynion llwybrau cyhoeddus sydd, yn gyfan gwbl neu yn gyntaf peth, er budd y cyhoedd
7	Gorchmynion llwybrau cyhoeddus sydd, yn gyfan gwbl neu'n bennaf, er budd unigolion preifat

3.4.3 Gorchmynion Addasu Mapiau Diffiniol (DMMO)

Yn 2008, roedd 14 cais am DMMO yn disgwyl am sylw. Ym Mehefin 2018, roedd y ffigwr yn 16. Bu sawl un o'r ceisiadau hyn yn disgwyl am sylw am nifer o flynyddoedd, gyda dau o'r ceisiadau bellach dros ugain mlynedd oed. Gan fod llawer o'r ceisiadau'n dibynnu ar dystiolaeth defnyddwyr llwybrau, yna dylent fod yn flaenoriaeth gan fod gwir berygl, dros amser, na fydd y dystiolaeth yn cael ei chadarnhau fel y mae tystion yn tynnu'n ôl neu'n symud i ffwrdd.

Er bod y gyfradd geisiadau'n gyffredinol yn ddim mwy na dau neu dri y flwyddyn, mae'r ôl-groniad o achosion yn cynyddu'n araf, sy'n dangos mai digonol yn unig yw'r dyraniad presennol o staff ac adnoddau, sy'n sefyllfa a allai newid er gwaeth yn ystod oes yr ail CGHT fel rydym yn agosáu at ddyddiad terfynol 2026, a gyflwynwyd yn Neddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.

3.4.4 Gorchmynion Llwybrau Cyhoeddus (PPO)

Yn 2008, 12 o geisiadau PPO oedd heb gael sylw. Yn ystod oes y CGHT cyntaf, gwnaed 22 gorchymyn. Fodd bynnag, nodwyd hefyd yn 2008 y canfuwyd 67 achos arall lle bo angen PPO i ddatrys materion fel tai a oedd wedi'u hadeiladu dros linell llwybrau. Roedd rhaglen o waith i fynd i'r afael â'r rhain, ynghyd â'r ôl-groniad o geisiadau, am gael ei llunio gyda'r nod o ddatrys yr holl faterion hyn. Fodd bynnag, ni osodwyd unrhyw ddyddiad cau ar gyfer datblygu neu weithredu'r rhaglen, ac ymddengys ei bod wedi ei rhoi o'r neilltu.

Gellir codi ar ymgeiswyr am weithredu PPO, sy'n eu hysgogi i fynd i'r afael â cheisiadau gan bobl eraill fel mater o flaenoriaeth. Fodd bynnag, mae'r polisi blaenoriaethu a fabwysiadwyd (gweler Tabl 3.7) yn rhoi'r rhain ar waelod y rhestr, y tu ôl i faterion fel mynd i'r afael â llwybrau sydd wedi'u rhwystro gan dai. Gellir ystyried ei fod yn werth chweil mynd i'r afael â cheisiadau newydd yn fuan yn defnyddio amser swyddogion penodedig y telir amdano gan ffioedd, ar wahân i ymdrechion i fynd i'r afael â'r ôl-groniad.

3.4.5 Gorchmynion Addasu Digwyddiadau Cyfreithiol

Yn 2008, meddylwyd fod angen 174 LEMO. Fodd bynnag, nid oes unrhyw gofrestr o'r rhain ac felly roedd y ffigwr gwirioneddol yn ansicr, ac mae'n dal i fod felly. Y targed a osodwyd oedd y byddai nifer y LEMO a fynnir yn 'agos i sero' erbyn 2012. Yn ymarferol, gwnaed 75 LEMO ers 2008 - er y dylid nodi yr oedd sawl un o'r rhain yn orchmynion 'omnibws' a oedd yn cwmpasu mwy nag un digwyddiad.

Gan y gwneir LEMO bellach ar yr un pryd â PPO, ni ddylai'r ôl-groniad fod yn cynyddu, a gan fod cynhyrchu LEMO y weithdrefn gwbl weinyddol, heb botensial am wrthwynebiadau neu hysbysebu drud, dylai'r nod o gael ddim un LEMO heb eu gwneud fod yn rhwydd i'w gyflawni - o gael digon o amser swyddogion a chymorth cyfreithiol.

3.4.6 Anomaleddau

Cofnododd CGHT 2008 bod y Sir yn cynnal rhestr o anomaleddau o'r fath, gyda 99 mater wedi'u rhestru. Yn anffodus, ni chafodd y rhestr hon ei hailddarganfod ac nid oes unrhyw restr gyfredol i'w chymharu â hi. Fodd bynnag, ymddengys yn bendant na wnaed unrhyw gynnydd o ran mynd i'r afael â'r ôl-groniad hwn o anomaleddau.

Unwaith y bydd anomaleddau'n cael eu canfod, dylid eu harchwilio a'u datrys, ond, yn hytrach na gadael hyn i ffawd, dylid cynnal adolygiad trylwyr o'r DMS i ganfod yr anomaleddau hyn. Byddai hyn yn caniatáu datblygu rhaglen waith i fynd i'r afael â'r rhain, gan gynnwys asesiad o'r adnoddau y byddid eu hangen.

3.4.7 Cyfyngiadau a Strwythurau Awdurdodedig

Y datganiad diffiniol ddylai fod y brif gronfa am wybodaeth ynghylch celfi awdurdodedig, gyda'r holl gamfeydd a giatiau sydd wedi'u cofnodi yn y datganiad yn cael eu trin fel eu bod wedi'u hawdurdodi'n briodol. Fodd bynnag, dengys y cofnodion ar gyfer y Sir nad oedd y strwythurau'n cael eu cofnodi'n gyffredinol ac felly nid oes unrhyw gofnod cynhwysfawr o strwythurau sydd wedi'u hawdurdodi'n hanesyddol.

Yn yr un modd, y datganiad yw'r man lle dylid cofnodi cyfyngiadau, fel lled llwybrau, ond eto, yn gyffredinol, ni chafodd y rhain eu cofnodi, ac nid ydynt yn ymddangos yn natganiad diffiniol Sir y Fflint.

Mae'r diffyg cofnodion ar gyfer y strwythurau sefydledig hyn a'r lledau traddodiadol yn destun dryswch a gwrthdaro posibl, a dylid rhoi ystyriaeth i sefydlu cofrestr gyflawn o gyfyngiadau a strwythurau awdurdodedig fesul llwybr. Dylai'r wybodaeth hon fod ar gael drwy'r map rhyngweithiol fel y gall darpar ddefnyddwyr sy'n anabl fod yn ymwybodol o gyfyngiadau y maent yn debygol o ddod ar eu traws.

Mae celfi'n benodol yn cael eu cofnodi ar CAMS ac maent yn weladwy i bobl ar system Gwe CAMS, os ydynt ond eisiau gweld y map yn hytrach na chofnodi materion.

Mae celfi a awdurdodwyd ers selio'r DMS wedi'u cofnodi mewn ffeil copi caled, gan gynnwys yr ohebiaeth a oedd yn awdurdodi'r gamfa neu giât. Cyn rhoi unrhyw awdurdodiad, ymwelir â safle'r strwythur bwriedig a chwblheir rhestr wirio i gadarnhau y gellir awdurdodi'r eitem. Cynhwysir y rhestr wirio fel Atodiad A.

3.5 Hyrwyddo a gwybodaeth

Rydym yn flaenorol wedi rhestru ac amlinellu'r stoc bresennol o lwybrau cerdded a hyrwyddir yn Nhabl 3.6 ac wedi nodi na chafodd unrhyw lwybrau newydd eu hyrwyddo'n weithredol gan Gyngor Sir y Fflint ers cyhoeddi llyfr Teithiau Cerdded Gwledig yn Sir y Fflint a gyhoeddwyd yn 2006.

Mae'r sylw yma ar waith hyrwyddo ehangach o ddefnydd yr HTC, ynghyd â'r ddarpariaeth o wybodaeth gyffredinol ar gyfer defnyddwyr llwybrau a rheolwyr tir, gan edrych ar ba wybodaeth sydd ar gael i annog defnydd cyfrifol o'r rhwydwaith ac i egluro hawliau a chyfrifoldebau.

3.5.1 Adnoddau

Mae'r map rhyngweithiol ar-lein ar wefan y Cyngor yn

<https://fccmapping.flintshire.gov.uk/connect/analyst/?mapcfg=publicrightsofway> yn darparu

offeryn amlbwrpas ar gyfer pob darpar ddefnyddiwr gyda mynediad i'r rhyngwyd i ymchwilio llwybrau ar draws y sir.

Er nad y map diffiniol yw hwn, mae'r map ar-lein rhyngweithiol yn cynnig atgynhyrchiad cyflawn o'r map diffiniol ond ar raddfa amrywiol, ac mae ganddo'r fantais o gynnig y capasiti i glosio at ardaloedd targed. Gellir cael gwybodaeth fanwl am bob llwybr, gan gynnwys yr enw cymunedol a rhif y llwybr, drwy glicio ar unrhyw le ar ei hyd. Fodd bynnag, ni cheir mynediad i'r datganiad diffiniol ac nid oes unrhyw fodd ar-lein o ganfod unrhyw gyfyngiadau posibl ar y llwybr yn defnyddio mapio ar-lein rhyngweithiol. Byddai ychwanegu dolenni at y rhan berthnasol o'r datganiad ar gyfer pob llwybr yn dasg faith ond gallai fod yn werthfawr iawn i ddefnyddwyr, yn enwedig y rheiny sydd â gallu cyfyngedig neu anghenion arbennig.

Tra nad yw'r map rhyngweithiol yn dal dolenni i'r wybodaeth hon, gall defnyddwyr gael mynediad i'r wybodaeth hon yn defnyddio system Gwe CAMS

(<https://rightsofway.flintshire.gov.uk/standardmap.aspx?NavigationPage=Page1>). Tra mai prif bwrpas system Gwe CAMS yw i ddefnyddwyr gofnodi a thracio materion, mae'r mapio'n hygyrch i ddefnyddwyr ei archwilio ymhellach. Trwy'r system hon, gall defnyddwyr ganfod pa gelfi sy'n bodoli, hyd y llwybr, a gallant hefyd weld lluniau a ychwanegwyd drwy waith arolwg.

Mae'r map rhyngweithiol yn darparu eglurhad sy'n rhoi'r cyfle i gael rhestr hir o leoliadau gwasanaeth a ddarperir gan y Cyngor. Dylid bod modd ychwanegu rhagor o wybodaeth sydd eisoes yn cael ei dal yn CAMS yn rhwydd, fel lleoliadau camfeydd, giatiau a giatiau mochyn, neu leoliadau problemau a rhwystrau sy'n hysbys.

3.5.2 Gwybodaeth i ddefnyddwyr

Nid yw'r Cyngor yn dal unrhyw wybodaeth fanwl am hawliau mynediad i gefn gwlad, dyletswyddau'r APLI neu hawliau tirfeddianwyr ar ei wefan. Mae cyngor amhenodol ar gael ar sawl gwefan arall, fel safle Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)

(<https://gov.wales/topics/environmentcountryside/consmanagement/rights-of-way-and-wider-access/rights-of-way/?lang=en>) a Chymdeithas y Cerddwyr

(<http://www.ramblers.org.uk/advice.aspx>), ond ni ddarperir unrhyw ddolenni i unrhyw un o'r rhain neu safleoedd eraill o'r fath.

Ar gyfer y cyhoedd sy'n defnyddio llwybrau, ychydig iawn o wybodaeth sydd ar gael am gyfleoedd o ran mynediad i bobl anabl. Ni lwyddodd chwiliadau helaeth ar y rhyngwyd i ganfod unrhyw wybodaeth gadarn am gyfleoedd y tu allan i'r parciau gwledig ar gyfer y rheiny ag unrhyw fath o anabled cyfyngol, er ei fod yn hysbys y gwnaed gwaith sylweddol i wella hygyrchedd Llwybr Arfordir Cymru yn Sir y Fflint (Nid yw chwilio gwefan y Cyngor ond yn canfod dolenni i'r Canllawiau Cynllunio Atodol a fabwysiadwyd yn 2017, nad oes llawer ohono'n berthnasol i'r rhwydwaith cefn gwlad, ond mae ychydig ohono'n berthnasol i'r amgylchedd adeiledig).

Yn yr un modd, nid oes ond ychydig neu ddim gwybodaeth yn cael ei darparu'n uniongyrchol ar gyfer beicwyr neu farchogion sy'n defnyddio llwybrau ceffyl. Fodd bynnag, darperir dolenni i sefydliadau eraill sy'n darparu rhagor o wybodaeth am yr ychydig gyfleoedd sydd ar gael.

3.5.3 Gwybodaeth i ymgeiswyr

O ran y rheiny sy'n dymuno gwneud cais i efallai ychwanegu llwybr i'r DMS, neu i geisio dargyfeirio neu gau llwybr sydd wedi'i gofnodi, mae arnynt angen gwybodaeth benodol a manwl. Mae'r mwyafrif o APLI yn gofyn i ymgeiswyr ar gyfer Gorchymyn Addasu Map Diffiniol (DMMO) neu Orchymyn Llwybr

Cyhoeddus (PPO) ddefnyddio ei ffurflenni mewnol ei hun a dilyn ei brotocolau penodol – gan gynnwys, lle y bo’n briodol, talu ffioedd. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw wybodaeth ar gael am y broses.

3.5.4 Gwybodaeth ar gyfer rheolwyr tir

Gall gwybodaeth sy’n hawdd cael mynediad iddi am y cyfrifoldebau sydd gan reolwyr tir o ran cynnal mynediad fod o gymorth i atal problemau ac i sicrhau mwy o gydymffurfiaeth. Ond ni chafodd unrhyw arweiniad ei baratoi ar gyfer tirfeddianwyr neu reolwyr tir sydd wrth eu gwaith arferol. Tra bo ffynonellau gwybodaeth ar gael yn rhwydd ar gyfer y grwpiau hyn drwy, er enghraifft, CNC, NFU Cymru a CLA Cymru, ni ddarperir unrhyw ddolenni i’r ffynonellau eraill hyn ar wefan y Cyngor. Byddai ychwanegu dolenni, neu ddatblygu ac uwchlwytho cyngor i’r wefan, yn fuddiol ac yn defnyddio ychydig iawn o amser neu adnoddau.

3.5.5 Llwybrau Teithio Llesol

Mae canllawiau CGHT y Llywodraeth yn cyfarwyddo APLI i edrych ar sut y mae HTC ar hyn o bryd yn cyfrannu at Llwybrau Teithio Llesol a pha botensial sydd yna o ran ymgorffori llwybrau presennol neu newydd o fewn y rhwydwaith teithio Llesol.

Mae Sir y Fflint wedi cyhoeddi cyfres o Fapiau Llwybrau Presennol ar gyfer Teithio Llesol (ERM), sy’n dangos llwybrau sydd wedi’u harchwilio ac yr ystyrir eu bod yn addas ar gyfer beicio a cherdded fel dewis arall yn lle defnyddio cludiant modur. Mae archwilio’r 16 map ochr yn ochr â’r map rhyngweithiol o HTC yn dangos ychydig iawn o orgyffwrdd gydag ERM a HTC, fel y nodir yn y tabl isod:

Tabl 3.8: Llwybrau cyhoeddus a ddefnyddir mewn Llwybrau Teithio Llesol

ERM Teithio Llesol	Graddau’r gorgyffwrdd gyda hawliau tramwy
Bwcle	Un achos o HTC/Llwybr Teithio Llesol a rennir; BUC13
Brychdwn	Ddim yn gorgyffwrdd â HTC
Cei Connah	Ychydig o orgyffwrdd ger Shotton
Parc Diwydiannol Dyfrdwy	Llwybr ar hyd glannau gogleddol Afon Dyfrdwy
Y Fflint	Ddim defnydd o HTC
Gorsedd	Ddim yn gorgyffwrdd
Maes-glas	Ddim yn gorgyffwrdd
Treffynnon	Ddim yn gorgyffwrdd
Yr Hob	Ddim yn gorgyffwrdd
Coed-llai	Ddim yn gorgyffwrdd
Yr Wyddgrug	Yn gorgyffwrdd drwy ‘erddi addurnol’, M19
Pentre Cathedral	Ddim yn gorgyffwrdd
Penyffordd	Yn gorgyffwrdd ar PE5 a PE8
Sandycroft	Yn gorgyffwrdd ar hyd glannau gogleddol Afon Dyfrdwy yn unig
Shotton	Ddim yn gorgyffwrdd ar wahân i ar lannau gogleddol Afon Dyfrdwy
Licswm	Ddim yn gorgyffwrdd

Er rhywfaint o orgyffwrdd, byddai’n fanteisiol i’r naill a’r llall i gynnwys haen Teithio Llesol ar y Map Rhyngweithiol. Yn yr un modd, byddai o gymorth cynnwys HTC ar ERM.


Roedd y Sir hefyd wedi cyhoeddi ac ymgynghori ynghylch Map Rhwydwaith Integredig Teithio Llesol, a gyhoeddir fel 'gweledigaeth 15-mllynedd i wella seilwaith ar gyfer cerddwyr a beicwyr ar draws y Sir.' Mae llawer o'r dolenni a gynigir yn rhai dyheadol ac fe'u cynrychiolir gan linellau syth rhwng cymunedau. Gallai cyflawni'r dyheadau hyn gynnig cyfleoedd sylweddol i wneud gwelliannau i HTC, gan gynnwys uwchraddio llwybrau troed cyhoeddus i fod yn llwybrau ceffyl neu lwybrau beiciau. Dylai gweithio gyda chydweithwyr ym maes Teithio Llesol i ganfod HTC addas i'w cynnwys yn y cynlluniau rhwydwaith integredig fod yn flaenoriaeth gynnar o fewn cyfnod y CGHT hwn.

4 Rheolaeth a threfniadaeth bresennol

4.1 Adnoddau

4.1.1 Staff

Ffig. 4.1: Siart trefniadaeth y Gwasanaethau Mynediad ac Amgylchedd Naturiol



Lleolir y tîm Hawliau Tramwy o fewn Gwasanaeth Mynediad ac Amgylchedd Naturiol y Sir ac mae'n cynnwys pum swyddog llawn amser a thechnegydd gwasanaeth.

Tra bo'r tîm Hawliau Tramwy yn gyfrifol am y rhan fwyaf o'r gwaith HTC a gyflawnir, mae'n ymwneud yn gyfan gwbl â'r DMS ac elfennau gorfodaeth, mae'r rhwydwaith yn manteisio hefyd ar fewnbwn gan y Parcmy'n. Mae hyn yn arbennig o ran Llwybr Arfordir Cymru a chynnal a chadw'r llwybrau a hyrwyddir.


Ni ddangosir hyn yn Ffig. 4.1, ond yn parhau i wneud cyfraniad pwysig y mae staff HTC yr AHNE ynghyd â gwirfoddolwyr sydd wedi'u gwreiddio o fewn Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych ond sydd yn gweithio ar draws yr AHNE gyfan.

Mae strwythur presennol y tîm yn cyferbynnu'n amlwg â hynny oedd yn ei le yn 2008. Ar adeg y CGHT cyntaf, roedd tri Swyddog Hawliau Tramwy, ynghyd â Thechnegydd, Cymhorthydd Gweinyddol ac Uwch Swyddog Hawliau Tramwy wedi'u lleoli o fewn y Gwasanaethau Rheoleiddio Prifffyrdd. Yn y cyfamser, lleolwyd y ddwy swydd Arolygydd Hawliau Tramwy o fewn y Gwasanaethau Cymdogaeth. Daethpwyd â'r tîm o dan y Gwasanaethau Cefn Gwlad ym mis Mai 2016. Roedd yr uno, gyda chylch gorchwyl o weithio'n hyblyg yn cael ei ystyried yn gam cadarnhaol i hybu gwaith cydweithredol. Gan edrych ar lefelau staffio, mae'n nodedig yn 2008 bod 8 aelod staff yn gweithio ar yr HTC. Dim ond chwe swydd sydd yn y strwythur presennol – er yr angen am ragor o adnoddau staff i ddechrau gwella'r rhwydwaith, fel y nodwyd yn y CGTC cyntaf.

4.1.2 Y Gyllideb

Roedd CGHT 2008 yn amcangyfrif mai'r buddsoddiad blynyddol a fyynnir ar gyfer hawliau tramwy yn Sir y Fflint y flwyddyn, dros y pum mlynedd nesaf, fyddai £269,351 neu £255 y km. Dengys ffigyrau'r gyllideb o 2012/13 (y dyddiad cynharaf sydd ar gael) i 2017/18 yr aethpwyd y tu hwnt i'r lefel hon o gymorth ers o leiaf 2012, fel y dangosir yng Ngraff 4.1. Er bod y gyllideb ar ei uchaf yn 2013/14, mae lefel gyffredinol y buddsoddiad a wnaed gan y Sir yn dal i fod yn uchel.

Graff 4.4: Cyfanswm y gyllideb ar gyfer hawliau tramwy y flwyddyn



4.1.3 FfMLI

Mae Fforwm Mynediad Lleol (FfMLI) Sir y Fflint wedi cyfarfod yn rheolaidd yn ystod oes y CGHT cyntaf. Roedd y FfMLI yn gweithredu yn ôl cylch tair blynedd a daeth i ddiwedd ei dymor diweddaraf yn 2017. Cynhaliwyd ei gyfarfod olaf ar Hydref 23^{ain} a chytunwyd yn y cyfarfod hwn y byddid yn cynnal trafodaethau â Chadeirydd FfMLI Wrecsam i drafod y posibilrwydd o ffurfio FfMLI ar y Cyd. Mae Memorandwm Dealltwriaeth wedi'i lofnodi erbyn hyn gan Brif Swyddogion Cynghorau Sir y Fflint a Wrecsam, ac maent wrthi'n recriwtio ar gyfer y FfMLI ar y Cyd. Bydd gan bob sir ei his-grŵp FfMLI ei hun, a disgwylir y cynhelir y cyfarfod cyntaf ar y cyd ddechrau Medi 2018.

Roedd y FfMLI blaenorol wedi cael 18 mlynedd o lwyddiant, ond gwnaed y penderfyniad i ailffurfio fel fforwm cyfun yn sgil profiad o fanteision y model trawsffiniol, fel y gwelwyd yng Nghonwy a Sir Ddinbych, ynghyd â datblygu themau cyffredin, fel Llwybr Cyswllt Cymru, ac angen cydnabyddedig i ganolbwyntio'n fwyfwy ar faterion rhanbarthol yn hytrach na rhai lleol.

4.1.4 Gynllun Gwirfoddoli Hawliau Tramwy

Yn 2016, estynnodd y Cyngor wahoddiad i ddefnyddwyr ymuno â'i Gynllun Gwirfoddolwyr Hawliau Tramwy newydd, yn seiliedig i ryw raddau ar fodel 'Silver Slashers' Cerddwyr Ynys Môn (<http://www.ynysmonramblers.org.uk/footpath-maintenance.html>). Mae'r niferoedd sy'n dod ymlaen yn isel, a thra bo'r cynllun yn dal mewn bodolaeth, nid yw wedi llwyddo i sefydlu grŵp gweithredol hunangynhaliol rheolaidd.

Mae gan wasanaeth parcmyd y Sir sylfaen mwy sefydledig o wirfoddolwyr ac, yn achlysurol, galwyd gwifoddolwyr y gwasanaeth parcmyd i weithio ar hawliau tramwy. Yn nodweddiadol, bydd y pump

parcmon yn hwyluso hyd at 10,000 o oriau o waith gwirfoddol y flwyddyn. Y disgwyliad yw, yn defnyddio profiad y parcmyr i feithrin a gweithio gyda sylfaen o wirfoddolwyr, gellir archwilio'r ymdrech wirfoddol ymhellach er budd y rhwydwaith HTC.

Mae AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy hefyd yn rhedeg cynllun gwirfoddolwyr sydd wedi'i hen sefydlu, sydd, ymhlith ei bortffolio o waith, yn gwneud gwelliannau i lwybrau ledled yr AHNE, gan gynnwys y rhannau yn Sir y Fflint.

Cyhoeddodd Cyngor Sir y Fflint Bolisi Gwirfoddolwyr ar gyfer 2016/17, gyda'r nod cyffredinol 'o weithio gyda chymunedau lleol a phartneriaid i ddatblygu ystod amrywiol o weithgareddau gwirfoddoli sy'n berthnasol i bobl Sir y Fflint.' Mae'r polisi'n amlygu'r cymorth sydd ar gael i wirfoddolwyr drwy Gyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint (FLVC).

4.2 Cysylltiadau Allanol

Mae rhwydwaith Sir y Fflint yn manteisio ar nifer o gysylltiadau â chyrff eraill, gan gynnwys;

- Cytundeb tair sir gyda Sir Ddinbych a Wrecsam ar gyfer rheoli'r AHNE, gyda Sir Ddinbych yn arwain fel yr awdurdod a chanddo'r gyfran fwyaf yn ôl arwynebedd.
- Mae gwaith wedi dechrau i ddysgu gan siroedd cyfagos mewn perthynas ag ategu nifer ac ansawdd polisiâu a phrotocolau'r Sir.
- Mae sefydlu a datblygu Llwybr Arfordir Cymru yn Sir y Fflint wedi cynnwys cyfuniad o Gyfoeth Naturiol Cymru, ynghyd â gwaith mewnol rhwng adeiniau rhwng y Parcmyr a staff HTC.
- Nid yw Llwybr Cenedlaethol Llwybr Clawdd Offa ond yn mynd i mewn i Sir y Fflint mewn rhannau byr. Mae felly'n gyfleus i ddirprwyo rheolaeth o'r rhannau bach hyn i Wasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych, sy'n gofalu am ran llawer mwy o'r Llwybr, o fewn yr AHNE yn bennaf.
- Mae Llwybr Cyswllt Cymru'n croesi Sir y Fflint a Wrecsam fel rhan o'i daith 18 milltir o ben Llwybr Arfordir Cymru i'w gyffordd â Chlawdd Offa yn Llandegla yn Sir Ddinbych.

5 Trosolwg strategol o'r rhwydwaith HTC a pholisïau cysylltiedig

5.1 Canfyddiadau rhanddeiliaid

Cysylltwyd â rhanddeiliaid o ystod y grwpiau diddordeb gan gynnwys: grwpiau cerdded, marchogion, tirfeddianwyr, pobl ag anableddau, y rheiny sy'n ymwneud â chyflenwi gweithgareddau ymarfer ar bresgripsiwn a gweithwyr iechyd proffesiynol. Yn ogystal, cwblhawyd holiadur byr gan aelodau grwpiau cerdded ynghylch eu sylwadau ar ddefnyddio Hawliau Tramwy yn Sir y Fflint dros y cyfnod ers creu'r CGHT cyntaf.

Mae'n glir fod gwahaniaeth barn gyda thirfeddianwyr yn ceisio cymorth i orfodi defnydd priodol o HTC, a defnyddwyr, ar y cyfan, yn ceisio mynediad ehangach. Fodd bynnag, mae cryn dipyn o dir cyffredin y gellir adeiladu arno yn y deng mlynedd nesaf.

5.1.1 Cerddwyr

Cynhaliwyd cyfarfodydd â chynrychiolwyr dau grŵp cerdded, y Cerddwyr yn Sir y Fflint a Walkabout Sir y Fflint, a wahoddwyd wedyn i gwblhau arolwg byr am eu profiadau; ymatebodd 40 o unigolion.

Roedd yr ymatebion i'r arolwg gan bobl a chanddynt brofiad sylweddol o HTC Sir y Fflint, gyda 70% o'r ymatebwyr wedi bod yn cerdded yn yr ardal ers dros 10 mlynedd ac yn cerdded yn wythnosol yn Sir y Fflint ar hyn o bryd. Roedd hanner yr ymatebwyr hyn yn mynd i gerdded mwy nag unwaith yr wythnos.

Eu profiad o HTC dros y 10 mlynedd diwethaf oedd bod 87% wedi gweld newidiadau yn y 10 mlynedd diwethaf, gyda mwyafrif sylweddol yn adrodd gwelliannau gweledol fel gwell camfeydd, giatiau a'u cyflwr, a lleiafrif (5%) yn adrodd am faterion o ran rhwystrau.

Yn nhermau adrodd am faterion, nid oedd 40% o'r ymatebwyr erioed wedi adrodd am fater, roedd chwarter yr ymatebwyr yn adrodd unwaith neu ddwy y flwyddyn, gyda chanran fechan (10%) yn adrodd yn amlach, h.y. yn fisol a hyd yn oed yn wythnosol. Yn nhermau adrodd, y mecanwaith mwyaf poblogaidd oedd y system ar-lein (CAMS), ond roedd rhai'n ffonio, yn e-bostio ac yn adrodd wyneb yn wyneb hefyd. Roedd bron i hanner yr ymatebwyr (47%) yn adrodd eu bod yn hapus neu'n hapus iawn â'u gallu i adrodd; roedd 9% (oedd yn cynrychioli 3 o bobl yn y sampl hwn) yn anhapus neu'n anhapus iawn. Roedd y gweddill yn niwtral o ran y mater hwn. Ar ôl adrodd am fater, roedd nifer sylweddol o ymatebwyr yn anfodlon. Roedd y rheiny a oedd yn fodlon yn fodlon iawn, gyda sylwadau fel "Cyn gynted ag yr oeddwn wedi'i adrodd, roeddynt wedi ei sortio" yn nodweddiadol. Fodd bynnag, o ran y rheiny a oedd yn anfodlon â'r canlyniad, e.e. "Mae'n dal i fod heb ei ddatrys". Cafwyd sylwadau am y system CAMS, sy'n gallu adrodd fod mater wedi'i ddatrys er nad oedd unrhyw gamau wedi'u cymryd, a oedd yn gwneud i rai defnyddwyr deimlo'n rhwystredig.

Mewn sylwadau terfynol, roedd llawer o ymatebwyr yn cydnabod tensiynau ôl-groniad cynyddol o waith, e.e. "Mae rhai o'r hawliadau'n mynd yn ôl dros 20 mlynedd" ynghyd â "Cyfnod anodd o ran toriadau". Gwnaed rhai awgrymiadau adeiladol, fel dysgu gan Awdurdodau Lleol cyfagos, a defnyddio gwirfoddolwyr i osod mynegbyst ar lwybrau. Rhoddwyd canmolïaeth i staff unigol ar y tir. Fodd bynnag, roedd rhai o'r awgrymiadau fel "Camfeydd is" yn gwbl groes i ofynion ffermwyr o ran cadw eu stoc yn ddiogel. Roedd y mwyafrif o'r sylwadau'n ymwneud a faint o amser a gymerwyd i fynd i'r afael â materion, diffyg cydnabyddedig o ran camau gorfodaeth, a materion yn ymwneud â system CAMS, yn enwedig y ffaith nad yw'n cynhyrchu adroddiad ar gyfer cofnodion y person sy'n ei

gyflwyno. Mae un sylw yn enghraifft dda o dôn yr ymatebion, “Mae’r Cyngor yn gwneud job resymol dan amgylchiadau anodd. Dylid bod mwy o bwyslais ar orfodaeth”.

5.1.2 Marchogion

Cysylltwyd â Chymdeithas Ceffylau Prydain i gael barn marchogion. Adroddwyd am hen faterion, a oedd yn dyddio’n ôl i’r cyfnod cyn y CGHT gwreiddiol. Mater allweddol i farchogion yw agor llwybrau ceffyl ar gyfer reidio diogel gan fod ffyrdd gwledig yn dod yn fwy a mwy prysur ac felly’n beryglus i farchogion ceffylau. Er enghraifft, “Ni fyddem yn reidio mwyach ar ffyrdd gwledig o’n cwrpas oherwydd eu bod yn rhy beryglus”.

Maent yn cydnabod y pwysau sy’n wynebu’r tîm ond yn teimlo fod marchogion a llwybrau ceffyl ar “waelod y rhestr”.

5.1.3 Pobl ag Anableddau

Mae Fforwm Anabledd Sir y Fflint yn cynrychioli pobl ag anableddau ledled y Sir, a thra eu bod yn hoelio eu sylw ar faterion o ran symudedd, maent wedi’u rhwydweithio hefyd gyda grwpiau sy’n cynrychioli pobl fyddar a rhai â nam ar eu golwg. Cynhelir sesiynau rheolaidd ganddynt i bobl ag anableddau yn y Wyddgrug a Shotton, ac fe gafodd barnau pobl anabl eu canfasio yng nghyfarfod Shotton a fynychwyd gan tua 15 o bobl.

Roedd cyfranogwyr yn y cyfarfod hwn yn adrodd y bu mater o ran defnyddio Llwybr Arfordir Cymru (LIAC) yn Sir y Fflint, lle nad yw’r rheiny sy’n defnyddio cadeiriau olwyn trydan yn gallu pasio drwy’r rhwystrau sydd wedi’u creu i atal rhai ar feiciau modur. Gall cadeiriau olwyn sy’n cael eu gwrthio, e.e. gan ofalwr, basio drwy’r rhwystrau. Nid yw’r grŵp yn deall pam fod y rhwystrau hyn yn eu lle ac adroddwyd ganddynt nad oedd rhwystrau o’r fath yn y sir gyfagos. Mae hyn wedi dod i fod yn fater sydd wedi suro barn y Fforwm mewn perthynas â hygyrchedd a HTC yn Sir y Fflint.

Roedd defnyddwyr hefyd yn adrodd materion o ran llwybrau unigol, er enghraifft lle mae gwreiddiau coed yn gwrthio wal gyfagos allan ar HTC, sy’n golygu er bod y llwybr yn dal i fod yn hygyrch i’r rheiny sy’n gallu cerdded, gorfodir defnyddwyr cadeiriau olwyn i ddefnyddio’r ffordd. Nid oeddynt yn glir o ran sut neu yn lle y dylid adrodd am y materion hyn. Un o’r materion hyn oedd atal unigolyn rhag mwynhau’r hyn yr oedd yn dewis ei chwarae sef bowliau, gan nad oedd y llwybr i’r lawnt fowlio mwyach yn hygyrch iddo yn ei gadair olwyn.

Mae’r Fforwm yn trefnu tripiâu rheolaidd i aelodau, ond cynhelir y rhain mewn awdurdodau cyfagos (soniwyd am Loggerheads a Dyffryn Alyn), tra bo’r ddau barc gwledig yn Sir y Fflint yn dal i fod heb eu defnyddio.

5.1.4 Tirfeddianwyr a Ffermwyr

Terfynau caeau

Codwyd sawl mater yng nghyswllt terfynau caeau. Y canfyddiad oedd nad oeddynt wedi’u marcio’n ddigon clir, ac roeddynt felly’n arwain cerddwyr nad oeddynt bob amser yn dilyn yr HTC i fynd y ffordd anghywir wrth groesi cae. Roeddynt yn hapus i gael mwy o fynegbyst ar eu tir. Awgrymwyd ganddynt y gwaethygyd y broblem gan fapiau syml a gynhyrchir gan ganolfannau ymwelwyr lleol a oedd yn golygu bod cerddwyr amhrofiadol yn aml yn “mynd y ffordd anghywir”.

Roedd giatiau pren wedi achosi problemau, drwy gael eu gadael ar agor yn bennaf gan gerddwyr, ond hefyd gan rai sy’n beicio mewn grwpiau, ac roedd peth tystiolaeth o giatiau’n cael eu dal ar agor gyda cherrig. Cafwyd rhai sylwadau bod uchder y gamfa a oedd wedi’i chymeradwyo, er yn addas ar

gyfer cerddwyr, ddim bob amser yn cadw stoc i mewn, a chafwyd enghreifftiau o stoc yn neidio dros y gamfa, a oedd yn broblem. Y rhwystr a ffafriwyd gan dirfeddianwyr oedd giât fochyn, a wnaed o fetel, neu giât sbring-lwythog. Yn y modd hwn, dywedwyd bod modd parhau i gadw stoc yn y caeau, roedd yr HTC yn parhau i fod yn hygyrch i'r mwyafrif o ddefnyddwyr, ac nid oedd angen gwneud llawer o waith cynnal a chadw.

Roedd cryn bryder ynghylch methiant rhai sy'n cerdded cŵn i reoli eu hanifeiliaid, ynghyd ag achosion rheolaidd o rai'n gwrthod rhoi eu cŵn ar denynnau ar ôl gofyn iddynt wneud hynny. Hefyd, roedd rhai sy'n cerdded cŵn weithiau'n goresgyn yr her o gael ci dros gamfa drwy greu agoriad gerllaw, naill ai drwy glirio tyfiant mewn gwrych, neu drwy dorri trwy ffens weiren bigog. Nodwyd bod creu agoriad ar gyfer ci hefyd yn creu man lle gall stoc basio trwodd, a oedd yn destun pryder gwirioneddol iawn i ffermwyr. Un opsiwn yw ychwanegu giatiau cŵn ar gamfeydd, ond roedd tirlfeddiannwr yn cydnabod bod hwn yn golygu gwariant ychwanegol, a bod mwy o waith cynnal a chadw ar giatiau o'r fath.

Nid oedd ffermwyr yn gyffredinol yn adrodd y materion pryder hyn i dîm HTC Sir y Fflint.

Cynnal a chadw HTC, a dyletswyddau tirlfeddianwyr

Roedd diffyg eglurder o ran rhai ffermwyr ynghylch eu dyletswyddau mewn perthynas â hawl tramwy yng nghyswllt sawl mater: mewn caeau â chnydau; p'un ai i osod rhybuddion mewn caeau lle ceir stoc, e.e. buchod gyda lloeau; pryd y bydd y Cyngor yn cynnal a chadw'r hawl tramwy, a phryd yr oedd y tirlfeddiannwr yn gyfrifol; pwy oedd â'r hawl i ddefnyddio'r gwahanol fathau o hawliau tramwy; pa fath o her fyddai'n briodol ar gyfer eu camddefnyddio.

Gwyro Hawl Tramwy

Canfyddiad ffermwyr oedd nad oedd modd gwyro hawl tramwy, er enghraifft, oherwydd eu bod wedi bwriadu codi adeilad amaethyddol. Yn wir, roedd y mwyafrif o'r ffermwyr yn cytuno eu bod yn cynllunio datblygiadau newydd ar eu ffermydd i osgoi hawliau tramwy, hyd yn oed lle byddai gwriad byr yn golygu y byddai'r gwaith adeiladu'n cael effaith lai o ran cynllunio neu'r amgylchedd. Nid oedd unrhyw un wedi ystyried ei bod yn bosib ceisio cyngor gan y tîm cyn cychwyn datblygiadau o'r fath.

Materion eraill

Roedd sbwriel yn broblem, yn enwedig sbwriel a allai fod yn niweidiol i stoc, fodd bynnag, nid oedd yn glir p'un a oedd yr sbwriel hwn yn cael ei adael gan ddefnyddwyr hawliau tramwy, neu ei fod wedi'i chwythu yno gan y gwynt.

Nid oedd aelodau undebau ffermio'n deall sut oedd gwaith y tîm hawliau tramwy'n cael ei flaenoriaethau; rhoddwyd enghreifftiau o waith a wnaed na allent ei ddeall, e.e. torri gwair yn rheolaidd ar lwybr ceffyl nad yw'n cael ei ddefnyddio, creu set o stepiau (sy'n costio) ar hawl tramwy nad yw ond yn cael ei ddefnyddio gan y tirlfeddiannwr. Roeddynt yn awyddus i weld yr arian yn cael ei wario'n ddoeth ac i ddeall pam roedd gwaith yn cael ei wneud.

Mynegodd aelodau undebau ffermwyr eu barnau bod buddiannau tirlfeddiannwyr yn cael llai o flaenoriaeth na defnyddwyr, a bod y gofynion cyfreithiol arnynt yn feichus.

5.2 Cyd-destun polisi

Lleolir y CGHT mewn cyd-destun polisi eang sy'n cael ei fframio gan ddeddfwriaeth genedlaethol a'i gweithredu ar lefel sirol.

Ers CGHT cyntaf Sir y Fflint, cyflwynwyd tri darn tra phwysig o ddeddfwriaeth: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (2016). Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi, mewn dogfen wedi'i symleiddio², y cysylltiadau rhwng y tri darn o ddeddfwriaeth. Yn ogystal, mae'r Ddeddf Teithio Llesol (2013) wedi cyflwyno gofynion newydd, a gwneir newidiadau arfaethedig i Gynlluniau Teithio Llesol Sir y Fflint yn ystod cyfnod y CGHT hwn.

Ar lefel leol, mae'r ddeddfwriaeth hon wedi arwain at gynhyrchu Cynllun Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint, ynghyd â gweithredu mapiau llwybr Teithio Llesol sy'n cwmpasu 15 anheddiad dynodedig o fewn o sir. Fel yn flaenorol, mae Cynllun Corfforaethol Cyngor Sir y Fflint, a elwir bellach yn Gynllun Cyngor Sir y Fflint, yn greiddiol i'r CGHT, fel y mae'r Cynllun Datblygu Lleol.

5.2.1 Deddfwriaeth, strategaethau a dogfennau perthnasol ar lefel genedlaethol a sirol

5.2.1.1 Cenedlaethol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn hoelio sylw ar wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n cynnwys saith nod llesiant cenedlaethol:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Cyflwynodd y Ddeddf hefyd egwyddor datblygu cynaliadwy a phum dull o weithio yr ystyrir eu bod yn allweddol i newid sut y mae sefydliadau'n gweithio i sicrhau eu bod yn "gweithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau". Dyma'r pum dull o weithio:

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

Mae **Deddf yr Amgylchedd** yn rhoi sylw i gynllunio a rheoli adnoddau naturiol Cymru mewn ffordd fwy rhagweithiol, cynaliadwy a chydgyssylltiedig. Mae'n cwmpasu: rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy; newid yn yr hinsawdd; codi taliadau am fagiau siopa; casglu a gwaredu gwastraff; pysgodfeydd ar gyfer pysgod cregyn a thrwyddedu morol; y pwyllgor llifogydd ac erydu arfordirol a draenio tir.

² <https://gov.wales/docs/desh/publications/160610-three-bills-diagram-en.pdf>

Mewn perthynas â rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol, mae'r Ddeddf yn darparu fframwaith sy'n cynnwys:

- Yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR) – a gyhoeddwyd yn 2016.
- Y Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol – a gyhoeddwyd fel drafft ar gyfer ymgynghori yn 2017.
- Datganiadau Ardal – yn y broses o gael eu datblygu.

Deddf Cynllunio (Cymru) 2016

Cafodd Deddf Cynllunio (Cymru) Gydysyniad Brenhinol ar 6 Gorffennaf 2015.

Mae'r Ddeddf (dolen allanol) yn nodi cyfres o newidiadau deddfwriaethol er mwyn diwygio'r system gynllunio yng Nghymru, gan sicrhau ei bod yn deg, yn gadarn ac yn hwyluso datblygiadau.

Mae'r Ddeddf yn mynd i'r afael â phum prif amcan:

- Fframwaith mwy modern ar gyfer darparu gwasanaethau cynllunio – mae'r Ddeddf yn cyflwyno pwerau i ganiatáu i geisiadau cynllunio, o dan amgylchiadau penodol, gael eu gwneud yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru.
- Atgyfnerthu'r dull gweithredu seiliedig ar gynllun – mae'r Ddeddf yn cyflwyno sail gyfreithiol dros baratoi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a Chynlluniau Datblygu Strategol.
- Gwella cydnerthedd – mae'r Ddeddf yn caniatáu i Weinidogion orchymyn i awdurdodau cynllunio lleol weithio gyda'i gilydd a bod awdurdodau cynllunio lleol yn cael eu huno.
- Rhoi mwy o bwyslais ar brosesau cychwynnol y system rheoli datblygu a'i gwella - bydd y Ddeddf yn cyflwyno gweithdrefn cyn ymgeisio statudol ar gyfer categorïau penodol o geisiadau cynllunio.
- Galluogi gweithdrefnau gorfodi ac apelio effeithiol – mae'r Ddeddf yn galluogi newidiadau i gael eu gwneud i weithdrefnau gorfodi er mwyn sicrhau bod camau uniongyrchol ac ystyrlon yn cael eu cymryd pan fydd rheolaethau cynllunio'n cael eu torri ac er mwyn gwneud y system apelio yn fwy tryloyw ac effeithlon.

5.2.1.2 Sirol

Cynllun Sir y Fflint 2017 – 2023

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno themâu'r Cyngor ar gyfer y cyfnod 2017 -2023. Fe'i disgrifir yn y testun fel Cynllun Gwella. Mae'r Cyngor yn adolygu'r adroddiad yn flynyddol, gan nodi sut y bydd y camau gweithredu o fewn chwe thema'r cynllun yn cael eu cyflawni a'u mesur.

Y chwe thema yn y cynllun ar gyfer 2017-18 yw:

- Cyngor Uchelgeisiol
- Cyngor Dysg
- Cyngor Gwyrdd
- Cyngor sy'n Cysylltu
- Cyngor sy'n Gwasanaethu
- Cyngor Cefnogol

Mae gan bob thema is-flaenoriaethau penodol, ynghyd ag effeithiau a nodir o fewn bob thema. Mae'r cynllun hefyd yn dangos cysylltiadau gyda strategaethau eraill, ynghyd â gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Nodwyd y cysylltiadau posibl a ganlyn gyda'r CGHT:

O fewn thema'r 'Cyngor Gwyrdd', disgrifir y flaenoriaeth fel *Datblygu Cynaliadwy a Rheolaeth Amgylcheddol* a disgrifir yr effaith gysylltiedig fel "Gwella'r amgylchedd naturiol a hybu mynediad at fannau agored a gwyrdd".

O dan y thema hon hefyd ceir y flaenoriaeth o *Wasanaethau Teithio Diogel a Chynaliadwy*, gydag effaith a ddisgrifir fel "Datblygu'r seilwaith trafniadaeth a safleoedd cyflogaeth, a gwasanaethau trafniadaeth, gan ehangu mynediad at safleoedd cyflogaeth a hyfforddiant", sy'n darparu cyswllt posibl rhwng y Cynlluniau Hawl Tramwy a Theithio Llesol.

Yn y thema 'Cyngor sy'n Cysylltu', disgrifir y flaenoriaeth fel *Cymunedau Cydnerth*, gydag effaith yn cael ei ddisgrifio fel "Cefnogi cymunedau lleol i fod yn gydnerth a hunangynhaliol". Byddai'r effaith hon yn cynnwys y gwaith a wneir gan grwpiau lleol ynghyd â gweithgareddau a arweinir gan wirfoddolwyr, sy'n cynnwys grŵp lleol Cymdeithas y Cerddwyr a Walkabout Sir y Fflint, i annog y defnydd o Hawliau Tramwy ledled y Sir, ac yn achos Walkabout Sir y Fflint, y defnydd o'r rhwydwaith hawliau tramwy ar gyfer gweithgareddau grŵp sy'n cynnwys hybu iechyd a llesiant.

Datganiad Ysgrifenedig y Cynllun Datblygu Lleol Mehefin 2017

Mae CDLI Sir y Fflint yn darparu'r fframwaith cynaliadwy ar gyfer cynllunio defnydd tir yn y Sir hyd at y flwyddyn 2030, a bydd yn blatfform ar gyfer datblygu ar ôl hynny. Y bwriad yw y bydd yn llywio dyfodol Sir y Fflint yn ffisegol ac yn amgylcheddol, ac yn dylanwadu arni'n economaidd ac yn gymdeithasol. Bydd yn ymateb i anghenion poblogaeth sy'n tyfu ynghyd ag economi sy'n bwysig ar lefel ranbarthol, o ran darparu ar gyfer swyddi newydd, cartrefi, seilwaith a chyfleusterau cymunedol, ond mae'n nodi bod rhaid iddo wneud hyn mewn modd sy'n sicrhau bod llesiant ei gymunedau'n cael ei gynnal, a bod effeithiau'r modd y mae tir yn cael ei ddatblygu a'i ddefnyddio yn cael eu rheoli a'u lliniaru mewn modd cynaliadwy. Hefyd, trwy ei ddarpariaethau, bydd y CDLI yn ceisio sicrhau bod cyfleoedd, fel gwelliannau amgylcheddol er enghraifft, yn cael eu gwireddu.

Gosodir y cyd-destun gan ddeddfwriaeth a chanllawiau cynllunio cenedlaethol, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol yng Nghymru baratoi a chynnal cynllun datblygu sy'n delio ag agwedd defnydd tir yr heriau uchod, gan wneud hynny'n unol â'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy a ymgorfforir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Bydd y CDLI, a fydd yn cwmpasu'r cyfnod amser rhwng 2015 a 2030, yn darparu'r fframwaith i hwyluso'r gwaith o gyflawni twf a datblygu mewn modd cynaliadwy. Statws y Cynllun ar adeg datblygu'r CGHT newydd yw y bydd y Cynllun Adnau'n destun ymgynghoriad yn Nhachwedd 2018.

Mae cysylltiadau allweddol rhwng y Cynllun Datblygu Lleol (fel y nodir yn yr Asesiad o'r Effaith Integredig) a'r CGHT yn cynnwys:

Yr Amgylchedd

- Annog y defnydd o fathau mwy cynaliadwy o gludiant a lleoliadau datblygu, gan leihau'r angen i deithio mewn car.
- Diogelu a gwella arwahanrwydd lleol a'r amgylchedd hanesyddol a'i leoliad.
- Dylid ceisio cyfleoedd i barhau i warchod y tirweddau arbennig yn Sir y Fflint.
- Dylid ceisio cyfleoedd i gynnal yr agweddau hanesyddol pwysig ar Sir y Fflint.
- Dylid gwella mynediad ac ymwybyddiaeth o agweddau unigryw y Sir.

- Lleolir rhan o AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn y Sir y mae'n rhaid ei gwarchod a'i gwella lle y bo'n briodol.

Cymdeithasol

- Gwella hygyrchedd a chysylltiadau cludiant i nwyddau a gwasanaethau sylfaenol o ardaloedd preswyl.
- Gwella iechyd a llesiant y boblogaeth a lleihau anghydraddoldebau o ran iechyd.
- Dylid ceisio cyfleoedd i wella iechyd y boblogaeth drwy annog ffyrdd iach o fyw. Gellid cyflawni hyn, er enghraifft, drwy ddatblygiadau sydd wedi'u dylunio'n dda, sy'n hybu gweithgaredd corfforol, cerdded a beicio.

Economaidd

- Sefydlu economi twristiaeth cryf, sy'n mynd ati mewn modd sensitif i elwa ar asedau amgylcheddol, treftadaeth a hamdden, a sicrhau bod y buddion yn cael eu profi'n lleol
- Dylid ceisio cyfleoedd i leihau trafndiaeth ceir/faniau a chynyddu'r defnydd o ddulliau cludiant gwyrddach a mwy cynaliadwy
- Dylid ceisio cyfleoedd i leihau'r pellter y mae pobl yn ei deithio i'r gwaith.

Cynllun Lles Sir y Fflint 2017-2023

Cyhoeddir y Cynllun gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint (BGC), sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'n ddatganiad o ymrwymiad y BGC i wella llesiant lleol heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Bu'n destun ymgynghori helaeth ac fe'i datblygwyd o asesiad llesiant cynhwysfawr. Mae ganddo bum amcan:

- Diogelwch Cymunedol
- Economi a Sgiliau
- Yr Amgylchedd
- Cymunedau Cydnerth
- Llesiant a Byw'n Annibynnol

Mae'r cynllun yn dangos y cysylltiadau ar draws yr amcanion a gyda Chynllun (Corfforaethol) y Cyngor (sy'n dilyn yr un themâu a chyfnod tebyg sef 2017-2023).

Mae'r cysylltiadau allweddol rhwng Cynllun Lles Sir y Fflint a'r CGHT yn cynnwys:

Yn yr adran ar yr Amgylchedd, mae'r camau gweithredu arfaethedig yn cynnwys:

- Hyrwyddo buddiannau defnyddio'r amgylchedd naturiol ar gyfer ymarfer corff, gwirfoddoli ac addysg.
- Canfod a gweithredu ar faterion sy'n achosi dirywiad amgylcheddol ac ecolegol drwy weithio gyda phartneriaid fel y sectorau ffermio, masnachol, diwydiannol a chludiant.
- Nodi'r holl asedau 'gwyrdd' sy'n bodoli drwy ymarfer mapio asedau, a cheisio cyfleoedd i'w hybu a'u cysylltu yn y dyfodol.
- Gwella cysylltiadau cludiant gwyrdd ar draws Sir y Fflint ac i mewn i siroedd cyfagos, gan ddatblygu gwell mynediad i gyfleoedd o fewn y seilwaith gwyrdd.

O dan Gymunedau Cydnerth, mae'r camau gweithredu arfaethedig yn cynnwys:

- Cynyddu cyfleoedd i bobl wella eu hiechyd a'u lles.
- Mwy yn defnyddio ac yn gwerthfawrogi'r amgylchedd naturiol ac yn defnyddio'r awyr agored.
- Newid ein cynlluniau hirdymor o ran amgylchedd ffisegol cymunedau er mwyn caniatáu datblygu adeiladau cymunedol a mannau naturiol a gwyrdd sy'n cysylltu pobl yn well.

Ac yn olaf, yn yr adran ar Les a Byw'n Annibynnol, nodi'r camau gweithredu a ganlyn:

- Archwilio a gwneud y defnydd gorau o gyfleoedd i hybu iechyd meddwl a lles.
- Sicrhau cysylltiadau a meysydd gwaith eraill sy'n flaenoriaeth i'r BGC, a gwneud y gorau o gyfleoedd i hybu cyfleoedd ym maes iechyd a lles e.e. Cael Sir y Fflint i Symud (Cymunedau Cydnerth).

Asesiad o Les Lleol Sir y Fflint

Cyhoeddir y ddogfen hon gan BGC Sir y Fflint, ac mae'n dwyn data ynghyd ar gyfer ystyried lles ar draws yr ardal gyfan ac o fewn cymunedau penodol. Mae ffynonellau data'n cynnwys data ystadegol, gwybodaeth o ran ymgysylltu â'r cyhoedd ac ymchwil academiaidd. Mae'r asesiad wedi'i strwythuro o amgylch y saith thema a nodir o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gyda sylw ar Sir y Flint.

Y rhain yw:

- Sir y Fflint Lewyrchus
- Sir y Fflint Gydnerth
- Sir y Fflint Iachach
- Sir y Fflint Fwy Cyfartal
- Sir y Fflint o Gymunedau Cydlynus
- Sir y Fflint â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu
- Sir y Fflint sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang

Mae canfyddiadau allweddol yn yr Asesiad Lles sydd â chysylltiad uniongyrchol â'r CGHT yn cynnwys:

- Mae gan Sir y Fflint dirwedd hynod o amrywiol yn amrywio o ddyffrynnoedd isel i lwyfandiroedd uchel agored.
- O gymharu â chyfartaledd Cymru, mae dinasyddion Sir y Fflint, yn gyffredinol, yn fwy tebygol o wneud dewisiadau iach o ran ffordd o fyw. Fodd bynnag, dim ond tua thraean o'r boblogaeth yn Sir y Fflint sy'n cyflawni'r lefelau gweithgaredd corfforol a argymhellir.
- Mae cymunedau'n mwynhau ansawdd bywyd, maent yn ddiogel a chanddynt gysylltiadau da, ac yn lleoedd lle mae pobl yn teimlo eu bod yn perthyn ac yn cefnogi'r naill a'r llall.
- Amcangyfrifir bod twristiaeth wedi dod â chyfanswm o oddeutu £238.7 miliwn i mewn i'r economi lleol yn 2015. Mewn blynnyddoedd diweddar, cafwyd cynnydd cyson yn nifer yr ymwelwyr i'r ardal, dros 3.6 miliwn o ymwelwyr yn 2015, yr oedd 2.8 miliwn ohonynt yn ymwelwyr am y dydd.
- Mae Sir y Fflint mewn sefyllfa dda o ran cyfleusterau adeiledig a'r amgylchedd naturiol, sy'n cael effaith gadarnhaol ar weithgaredd corfforol a llesiant.

Teithio Llesol

Diffinnir teithio llesol fel cerdded a beicio (gan gynnwys y defnydd o sgwteri symudedd) ar gyfer teithiau bob dydd, e.e. i'r ysgol, gwaith, siopau neu i gael mynediad i wasanaethau fel canolfannau iechyd a hamdden.

Mae'r Ddeddf Teithio Llesol yn ei gwneud yn ofyn cyfreithiol i Gyngor Sir y Fflint fapio a chynllunio ar gyfer llwybrau cynaliadwy ar gyfer teithio llesol o fewn rhai o'i anheddau fel y nodir gan Lywodraeth Cymru.

Y cam cyntaf oedd llunio Mapiau Llwybr Presennol,³ a oedd yn dangos llwybrau sy'n addas ar gyfer teithio llesol ac a oedd yn cyflawni'r safonau a osodir gan Lywodraeth Cymru. Fe gafodd Mapiau Llwybr Presennol Sir y Fflint at ddefnydd cerddwyr a beicwyr eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru yn 2016, a chynhyrchwyd 15 o fapiau, sy'n cwmpasu ardaloedd Bwcle, Brychdwn, Cei Connah, Parc Diwydiannol Dyffryn Dyfrdwy, Y Fflint, Gorsedd, Maes-glas, Treffynnon, Yr Hob, Coed-llai, Yr Wyddgrug, Pentre Catheral, Penyffordd, Sandycroft, Shotton a Walwen (Lixwm).

Nid yw'r Mapiau Llwybr Presennol yn dangos yr holl llwybrau cerdded a beicio posibl, neu hawliau tramwy eraill, gan fod y sylw ar y rheiny sy'n cyflawni meini prawf Teithio Llesol. Mae'r adroddiad i'r Llywodraeth ar Lwybrau Teithio Llesol ar gyfer 2016/17 yn dangos gwariant o £711,200 a wariwyd ar gynnal a chadw, gwella diogelwch ac uwchraddio'r llwybrau presennol.

Strategaeth Fframwaith Mannau Gwyrdd 2013

Mae'r strategaeth hon yn cydnabod gwerth mannau gwyrdd ledled y Sir, ac yn cynnwys hawliau tramwy, parciau, tir comin ac ardaloedd dynodedig, gan gynnwys yr AHNE. Y weledigaeth a nodir yw: "Bydd Sir y Fflint yn mwynhau rhwydwaith a gynlluniwyd ac a reolir o fannau gwyrdd integredig, hygyrch ac amrywiol; gan greu amgylchedd cynaliadwy er lles yr holl bobl, bywyd gwyllt a'n treftadaeth naturiol."

Mae'n nodi'n glir "Rydym am i bobl ddefnyddio Mannau Gwyrdd yn bositif ac yn amlach fel rhan o'u bywydau bob dydd, ac rydym yn derbyn fod angen i ni wella mannau gwyrdd er mwyn darparu mannau cymunedol croesawgar, hygyrch, deniadol a mwy diogel".

Ceir tri nod o fewn y strategaeth, ond yr un mwyaf perthnasol yn nhermau'r CGHT yw Nod Tri: h.y. "Byddwn yn gwneud mannau gwyrdd presennol yn fwy hygyrch i bobl a bywyd gwyllt". Mae'r nod hwn yn cynnwys y pwyntiau a ganlyn sy'n berthnasol i'r CGHT:

"Golyga hyn na ddylai mynedfeydd na llwybrau atal pobl o unrhyw allu rhag elwa o fannau gwyrdd yn ogystal ag ystyried diogelwch pob defnyddiwr".

"Dylai mannau gwyrdd fod yn hygyrch ac yn agos at y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu gan sicrhau fod pawb yn cael mynediad lleol at fan gwyrdd sy'n gynnig gwerth naturiol a gwerth chwarae".

"Lle bo hynny'n bosibl, dylai mannau gwyrdd fod yn gysylltiedig â'i gilydd er mwyn creu coridorau gwyrdd i ddarparu llwybrau oddi ar ffyrdd sy'n darparu cysylltiadau at weithleoedd, cyfleusterau addysg, hamdden a siopa".

I wneud hyn, mae'r Strategaeth yn cynnig y dylai pawb gael mynediad diogel i fan gwyrdd o fewn pum munud o gerdded o'u cartref. I bwrpas y Strategaeth hon, ystyrir fod pum munud o gerdded yn daith o 500 metr, a rhagwelir y bydd angen gwneud gwaith sylweddol i sicrhau y darperir mynediad i gerddwyr a beicwyr ar hyd llwybrau allweddol a nodir.

³ Copïau o'r mapiau ar gael yn:

<http://www.flintshire.gov.uk/en/Resident/Streetscene/Active-Travel-Existing-Route-Map.aspx>

4.2.2 Strategaethau a dogfennau perthnasol eraill

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi cyhoeddi ei Ddatganiad Llesiant cyntaf, ***Rheoli adnoddau naturiol heddiw ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol 2017/18***. Mae'r ddogfen yn amlinellu amcanion llesiant y sefydliad a sut y maent yn cyfrannu at saith nod llesiant Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru, yn ogystal â'r camau a gymerir ganddynt i'w cyflawni. Y saith nod llesiant yw:

1. Hyrwyddo amgylchedd Cymru a rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy.
2. Sicrhau bod tir a dŵr yng Nghymru'n cael eu rheoli mewn modd cynaliadwy ac integredig.
3. Gwella gwydnwch ac ansawdd ein hecosystemau.
4. Lleihau'r risg i bobl a chymunedau o beryglon amgylcheddol megis llifogydd a llygredd.
5. Helpu pobl i fyw bywydau iachach a mwy boddhaus.
6. Hyrwyddo busnes llwyddiannus a chyfrifol sy'n defnyddio adnoddau naturiol heb eu difrodi.
7. Datblygu Cyfoeth Naturiol Cymru yn sefydliad rhagorol, sy'n darparu gwasanaeth cwsmeriaid o'r radd flaenaf.

Yn ei dro, bydd y ddyletswydd newydd ar Gyfoeth Naturiol Cymru i gynhyrchu ***Datganiadau Ardal*** – fel offeryn ar gyfer hyrwyddo rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol – yn berthnasol i flaenoriaethau strategol Sir y Fflint ar gyfer hawliau tramwy.

Comisiynwyd ***Adroddiad Terfynol Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru 2014*** gan CNW, yn dilyn arolygon tebyg blaenorol yn 2008 a 2011. Roedd yn canolbwyntio ar ymgysylltu â'r cyhoedd a'r amgylchedd naturiol, gan gynnwys cyfranogi mewn gweithgareddau hamdden awyr agored, buddion iechyd ac economaidd, agweddau tuag at fioamrywiaeth ac ymddygiadau sy'n gefnogol i'r amgylchedd. Ar raddfa genedlaethol, mae hyn yn darparu data cyd-destunol sy'n cynnwys:

- Mae 93% o bobl wedi ymweld â'r awyr agored o leiaf unwaith yn y 12 mis diwethaf.
- Cofnodwyd gostyngiadau rhwng 2011 a 2014 ar gyfer cyfran y bobl a fu ar ymweliad yn y 4 wythnos ddiwethaf, yn ogystal ag ar gyfer ymweliadau o fewn milltir o'r man cychwyn, ynghyd ag ymweliadau byrrach o lai nag awr.
- Mae ymweliadau byrrach, yn nes at adref, yn fwy tebygol nag ymweliadau hirach ymhellach i ffwrdd.
- Pobl 75 oed neu drosodd oedd y rhai lleiaf tebygol o fod wedi bod ar ymweliadau.
- Cerdded yw'r gweithgaredd a wneir fwyaf, er y cofnodwyd cynnydd yn nifer y rhai a oedd yn rhedeg. Cofnodwyd y lefelau cyfranogiad uchaf eraill ar gyfer nofio yn yr awyr agored, beicio ar y ffordd a beicio oddi ar y ffordd.
- Roedd pobl a chanddynt blant yn yr aelwyd yn arbennig yn debygol o fynd i gerdded, ynghyd â'r rheiny sy'n 25-54 oed, rhai mewn gwaith cyflogedig, gofalcwyr a'r rheiny a chanddynt fynediad i gar.
- Roedd merched yn fwy tebygol o fynd i gerdded na dynion. Wrth ddadansoddi yn ôl oedran, roedd yn fwy tebygol i ymweliadau gan y rheiny a oedd yn 55 neu drosodd gynnwys cerdded, a rhedeg oedd yn fwy tebygol o fod y gweithgaredd a wnaed gan rai 34 neu iau.
- Cerdded oedd yr un prif weithgaredd yn ystod 6 o bob 10 ymweliad ar gyfer y rheiny a oedd wedi ymweld â'r awyr agored yn y 4 wythnos ddiwethaf.
- Y lleoedd mwyaf poblogaidd i fynd yn yr awyr agored (a gofnodwyd gan fwy na thraean o'r boblogaeth) oedd y pentref, y parc lleol, traeth, palmant/trac ar ymyl y ffordd, coetir/coedwig, y môr, man agored lleol arall.

- Y rhesymau a nodwyd amlaf dros beidio ag ymweld â'r awyr agored a roddwyd gan y rheiny nad oeddynt wedi gwneud hynny yn y 12 mis diwethaf oedd (mewn trefn ddisgynnol) anabledd corfforol, rheswm iechyd arall, henaint, prysur/dim amser. O ran y rheiny nad oeddynt wedi ymweld â'r awyr agored yn y pedair wythnos ddiwethaf, y rhesymau a nodwyd amlaf oedd (mewn trefn ddisgynnol) eu bod yn brysur/dim amser, tywydd garw/gwael, rheswm iechyd arall, anabledd corfforol.
- Iechyd neu ymarfer oedd yr ysgogiad a nodwyd amlaf ar gyfer ymweld â'r awyr agored (23%), a ddilynwyd yn agos gan fynd â'r ci am dro (22%), ac yna ymweliadau er pleser neu fwynhad (15%) ac ar gyfer cael awyr iach/tywydd braf (14%).
- Roedd dros hanner yr ymweliadau â chefn gwlad o fewn y 4 wythnos ddiwethaf yn cynnwys llai na 2 awr yn cael ei dreulio ar y prif weithgaredd. Roedd 28% o'r ymweliadau lle mai cerdded oedd y prif weithgaredd yn cynnwys llai nag awr yn cael ei dreulio'n gwneud hynny. Roedd ymweliadau o lai nag awr yn fwy tebygol o gael eu gwneud gan rai oedd heb fynediad i gar, pobl 75 oed neu hŷn, rhai a chanddynt salwch tymor hir neu anabledd, a'r rheiny heb gymwysterau academiaidd.
- Roedd 38% o'r ymweliadau o fewn milltir o'r man cychwyn (y cartref, y gweithle, llety gwyliau), roedd 37% o fewn 1 i 5 milltir.
- Yn nhermau'r prif ddull cludiant a ddefnyddiwyd ar ymweliadau â'r awyr agored, roedd 46% o ymweliadau'n cynnwys defnyddio car, 42% yn cerdded, 5% yn defnyddio beic a 2% yn defnyddio cludiant cyhoeddus.
- Roedd cyfrannau cyfartal o'r ymweliadau gyda'r teulu – 39%, 20% gyda ffrindiau a 5% fel rhan o grŵp wedi'i drefnu. Roedd tua chwarter yr ymweliadau'n cynnwys plant yn y parti, ac roedd tua dau o bob pump yn cynnwys cŵn.
- Gwariwyd arian yn ystod 42% o ymweliadau yn yr awyr agored, gyda'r swm cyfartalog ar draws bob ymweliad yn £12.74. Gwariwyd arian ran amlaf ar fwyd a diod.
- Yn nhermau'r galw i'r dyfodol, byddai 60% o oedolion yn hoffi ymweld â'r awyr agored yn amlach ar gyfer hamdden, a oedd yn ffigwr tebyg i arolygon blaenorol. Mae mwy o ddiddordeb mewn cerdded, er bod nifer wirioneddol y rheiny sy'n cerdded wedi lleihau ers 2008. Roedd y cyrchfannau yr oedd y mwyaf o ddiddordeb ynddynt yn cynnwys mwy o deithio, h.y. traethau a mynyddoedd/bryniau/rhostiroedd.

5.3 Cyd-destun perthnasol arall

5.3.1 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000

Cyflwynodd Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (CROW) fesur a ddyluniwyd i roi sicrwydd i dirfeddianwyr na fydd rhaid iddynt wynebu hawliadau annisgwyl am hawliau tramwy a ganfuwyd o'r newydd yn seiliedig ar dystiolaeth hanesyddol, hynny yw, dystiolaeth o'r cyfnod cyn 1949. Bydd y mesur, a gynhwysir yn adran 53 o CROW, yn dod i rym os a phryd y bydd Llywodraeth Cymru'n pasio rheoliadau i'w weithredu. Os caiff ei weithredu, byddai'r mesur yn diddymu unrhyw hawliau hanesyddol nas cofnodwyd ar 1^{af} Ionawr 2026 neu ddyddiad hyd at bum mlynedd wedyn. Cyfeirir at 2026 yn aml erbyn hyn fel 'y dyddiad terfyn'.

Nid yw Llywodraeth Cymru hyd yma wedi ymrwymo i wneud y rheoliad angenrheidiol i weithredu'r mesur hwn. Fodd bynnag, os cyflwynir y dyddiad terfyn, bydd canlyniadau sylweddol ar gyfer llwyth

gwaith DMS pob awdurdod priffyrdd lleol. Disgwylir, os cyhoeddir y dyddiad terfyn, bydd cynnydd sylweddol yn yr hawliadau am Hawliau Tramwy nas cofnodwyd mewn ymgais i ddiogelu'r llwybrau hyn cyn eu diddymu.

O ran hawliadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth hanesyddol sydd wedi'u gwneud yn briodol a'u cyflwyno i'r Cyngor cyn y dyddiad terfyn, ni chânt eu diddymu'n awtomatig ond byddant yn aros i gael eu harchwilio a'u penderfynu. Felly, yn y lle cyntaf, bydd y llwyth gwaith ychwanegol yn ymwneud â gwirio fod yr hawliadau wedi'u gwneud yn briodol. Gan dybio eu bod nhw, nid oes unrhyw angen tra phwysig iddynt gael eu penderfynu cyn y dyddiad terfyn. Er hynny, bydd yr hawliadau ychwanegol yn ychwanegu at yr ôl-groniad DMS ynghyd â dyletswydd y Sir i'w prosesu.

Nid oes unrhyw fodd o ddweud ymlaen llaw faint o hawliadau a wneir, felly mae'r posibilrwydd o weithredu'r dyddiad terfyn yn dal i fod yn ffactor sylweddol posibl yn llwyth gwaith y tîm Hawliau Tramwy tuag at ddiwedd y cyfnod CGHT hwn.

5.3.2 Gwella cyfleoedd i gael mynediad i gyfleoedd hamdden awyr agored

Yn 2015, cynhaliodd y Llywodraeth ymgynghoriad ynghylch 'Gwella cyfleoedd i gael mynediad i'r awyr agored ar gyfer gweithgareddau hamdden cyfrifol'. Roedd yr ymgynghoriad eang hwn yn gwahodd ymatebwyr i edrych ar holl agweddau cyfleoedd hamdden awyr agored yng Nghymru ynghyd ag awgrymu strategaethau newydd, gan gynnwys mesurau deddfwriaethol newydd ar gyfer gwella'r modd y'u cyflawnir.

Nid yw'r Llywodraeth wedi pennu dyddiad terfyn iddo ei hun ar gyfer cynhyrchu deddfwriaeth newydd neu wedi nodi y bydd yn cyflwyno deddfwriaeth mewn unrhyw feysydd penodol. Fodd bynnag, mae posibilrwydd bod yr ymgynghoriad yn gam cynnar mewn ymarfer sy'n arwain at newid sylfaenol mewn deddfwriaeth ym maes mynediad yng Nghymru o fewn oes yr ail GGHT. Os digwydd hyn, bydd angen gwneud adolygiad sylfaenol o'r ddogfen hon, ac mae'n debygol y byddai rhaid ei diwygio.

6 Gwerthuso anghenion a chyfleoedd i'r dyfodol

6.1 Crynodeb o bwyntiau allweddol o asesiad o'r modd y cyflawnwyd CGHT 1 a chanfyddiadau rhanddeiliaid

O ran y canfyddiadau o'r adolygiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, yr adolygiad pen desg o strategaethau a chynlluniau perthnasol, a gwerthuso cyflwr presennol y rhwydwaith, gellir eu dwyn ynghyd i ddangos nifer o negeseuon a ddaeth i'r amlwg (a gyflwynir isod ond ddim mewn unrhyw drefn arbennig).

Rhanddeiliaid:

- Yn gyffredinol, mae pobl sy'n cerdded yn rheolaidd yn hapus gyda chyflwr y rhwydwaith.
- Hoffai defnyddwyr weld ymagwedd fwy dynamig tuag at orfodaeth, gyda gwell cyfathrebu ynghylch camau a gymerwyd.
- Mae marchogion eisiau gwelliannau ar lwybrau ceffyl.
- Mae defnyddwyr anabl yn teimlo'n gryf am y mynediad cyfyngedig i Lwybr Arfordir Cymru, ac mae arnynt angen cyfleusterau.
- Mae gan dirfeddianwyr bryderon ynghylch defnyddwyr yn agor bylchau o gwmpas camfeydd.

Monitro cyflwr a gwaith cynnal a chadw

- Ychydig iawn o ddata sydd ar gael ynghylch cyflwr y rhwydwaith.
- Mae'r gwaith yn adweithiol yn bennaf, ac nid yn rhagweithiol.
- Nid yw'n glir i randdeiliaid sut a pham y mae gwaith cynnal a chadw yn cael ei flaenoriaethu a'i wneud.

Gwybodaeth a hyrwyddo

- Mae system adrodd ar-lein CAMS yn ddatblygiad cadarnhaol.
- Ychydig iawn o waith sy'n cael wneud i hyrwyddo'r rhwydwaith gan y tîm Hawliau Tramwy.
- Ychydig iawn o wybodaeth sydd ar gael i reolwyr tir a defnyddwyr llwybrau, ond mae galw am hyn.
- Nid yw camau'n cael eu cymryd i wneud y gorau o gyfleoedd o ran cysylltiadau cyhoeddus.

Cynnydd o ran CGHT1

- Mae cerddwyr rheolaidd yn sylwi ar welliannau.
- Dengys adolygiad o'r Datganiad o Weithredoedd, allan o 22 tasg, bod 6 wedi'u cwblhau, gwnaed cynnydd rhannol o ran 8 ohonynt, ac ychydig neu ddim o ran 8 arall.
- Gall y diffyg data sydd ar gael ar gyfer asesu fod yn cuddio mwy o gynnydd na hynny sy'n amlwg.

Y safbwynt sefydliadol

- Mae staff hawliau tramwy yn canolbwyntio ar eu hardaloedd unigol eu hunain.
- Mae'r tîm wedi edrych yn allanol i ddysgu o arferion da mewn mannau eraill.
- Mae'n anodd cael data a gwybodaeth berthnasol.
- Ychydig o synergedd sydd rhwng y gwasanaeth hawliau tramwy a'r gwasanaeth parcmyn/cefn gwlad.

6.2 Gwerthusiad o'r graddau y mae Hawliau Tramwy Lleol yn diwallu anghenion y cyhoedd ar hyn o bryd ac i'r dyfodol

6.2.1 Diwallu anghenion ar hyn o bryd ac i'r dyfodol

Ceir agweddau lle gellir dweud bod y rhwydwaith Hawliau Tramwy Lleol yn diwallu anghenion presennol, yn nhermau'r hyn y dywedodd cyfranogwyr yn yr adolygiad yr oeddynt yn ei hoffi. Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn (ddim mewn trefn arbennig):

- Darparu mynediad i sawl rhan wahanol o'r Sir ar gyfer cerdded yn rheolaidd.
- Llwybrau, at ei gilydd, mewn cyflwr da a defnyddiadwy.
- Yn gallu gweld y gwelliannau mewn blynyddoedd diweddar.
- Arwyddion da o ffyrdd.
- Yn darparu rhai cyfleoedd ar gyfer beicio mynydd a reidio ceffylau oddi ar y ffordd.

Fodd bynnag, oherwydd adnoddau cyfyngedig, mae'n amlwg bod agweddau lle nad yw Hawliau Tramwy Lleol Sir y Fflint yn diwallu anghenion presennol a rhai i'r dyfodol yn gyfan gwbl, o ran y problemau a godwyd gan gyfranogwyr yn yr adolygiad ynghyd â gwelliannau yr hoffent eu gweld. Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn (ddim mewn unrhyw drefn o ran pwysigrwydd):

- Nid yw mynegbyst mor gyson ag yr hoffai rhai defnyddwyr.
- Nid oes digon o lwybrau ceffyl i farchogion i'w galluogi i reidio oddi ar y ffordd gymaint ag yr hoffent.
- Nid yw defnyddwyr cadeiriau olwyn yn gallu cael mynediad i Lwybr Arfordir Cymru, ac maent yn profi rhai problemau o ran yr arwyneb ar lwybrau troed lleol.
- Mae tirfeddianwyr wedi profi problemau o ganlyniad i ymddygiad amhriodol gan ddefnyddwyr a'u cŵn, yn enwedig yn nhermau peryglu eu gallu i gadw stoc yn eu caeau.
- Nid oes digon o wybodaeth am y rhwydwaith hawliau tramwy, yn nhermau'r hyn sydd yno, a hawliau a chyfrifoldebau pobl.

6.2.2 Cyfleoedd

Dangosodd yr asesiad bod cyfleoedd i'w cael mewn sawl maes. Mae'r rhain yn cael eu crynhoi isod, ac yna'n cael eu trafod yn fanylach yn y Datganiad o Weithredoedd.

Hygyrchedd ffisegol y rhwydwaith

- I. Archwilio cyfleoedd lle gellir gwella mynediad i'r anabl
- II. Cynnal llwybrau troed mewn cyflwr da
- III. Gwelliannau o ran mynegbyst ac arwyddion
- IV. Archwilio cyfleoedd i gysylltu â llwybrau ceffyl
- V. Archwilio cyfleoedd i gysylltu llwybrau troed rhwng mannau allweddol
- VI. Defnyddio mwy o wirfoddolwyr i wneud gwaith cynnal a chadw a gwelliannau
- VII. Delio â materion o ran gorfodaeth mewn modd amserol

Defnydd mwy pwrpasol o'r rhwydwaith Hawliau Tramwy

- I. Adeiladu a chynnal cysylltiadau strategol, a hwyluso rhwydweithiau, ar lefelau strategol a gweithredol.
- II. Archwilio cyfleoedd i ganfod llwybrau priodol ar gyfer cerdded i hybu iechyd
- III. Archwilio cyfleoedd i ganfod llwybrau priodol ar gyfer teithio llesol

Cofnodi cyfreithiol a newidiadau

- I. Cadarnhau'r Map Diffiniol a'r Datganiad
- II. Mynd i'r afael ag anomaledau
- III. Adolygiad parhaus o'r Map Diffiniol a'r Datganiad
- IV. Meithrin arbenigedd ymhlith staff y tîm Hawliau Tramwy
- V. Archwilio a datblygu cyfleoedd ar gyfer canfod cyllid allanol
- VI. Datblygu a dosbarthu polisi blaenoriaethu i'r tîm ar gyfer gwaith cyfreithiol

Hyrwyddo a gwybodaeth

- I. Rhwydwaith llwybrau a hyrwyddir
- II. Llwybrau a hyrwyddir ar gyfer marchogion a beicwyr
- III. Gwella'r ddarpariaeth o wybodaeth i reolwyr tir a defnyddwyr hawliau tramwy
- IV. Gwella'r ddarpariaeth o wybodaeth i bobl ag anabledau

Gweithio'n strategol

- I. Gweithio mewn modd rhagweithiol, gan ddefnyddio'r CGHT i roi cyfeiriad; adolygu cynnydd yn rheolaidd ac adrodd i'r FfMLI a'r Cabinet
- II. Datblygu, adolygu a diweddarau polisiau i sicrhau cysondeb o ran eu bod yn cwmpasu meysydd gweithgaredd allweddol
- III. Meithrin a chynnal dull cyfathrebu cryf gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Cynghorwyr, defnyddwyr a thirfeddianwyr
- IV. Creu a gweithredu strategaeth wirfoddoli, gan gynnwys ystyried cyfleoedd cydweithredol
- V. Datblygu'r defnydd o GIS fel offeryn rheoli a phenderfynu rhagweithiol
- VI. Datblygu a dosbarthu polisi blaenoriaethu i'r tîm ar gyfer gwaith cyfreithiol

Cynllunio a chyflawni tasgau allweddol

- I. Trefniadau cadw cofnodion cadarn, yn enwedig o ran CAMS
- II. Gwaith arolygu/casglu data wedi'u dylunio a'u cynllunio'n dda
- III. Gweithdrefnau cyson ar gyfer yr holl dasgau gwaith allweddol

Datblygiad sefydliadol

- I. Adolygu rolau a chyfrifoldebau arweiniol o ran tasgau allweddol ar gyfer unigolion arbennig.
- II. Annog unigolion i weithio mewn modd blaengar, o fewn 'tîm cyfan'
- III. Meithrin arbenigedd perthnasol mewn perthynas â rolau arweiniol o fewn y tîm
- IV. Sefydlu'r FfMLI
- V. Archwilio cyfleoedd i gydweithio'n agosach ag awdurdodau cyfagos a rhai sy'n gorgyffwrdd
- VI. Archwilio a datblygu cyfleoedd i ganfod cyllid allanol

6.2.3 Polisiâu a Gweithdrefnau

Mae'r Datganiad o Weithredoedd yn mynd ochr yn ochr â llyfryn *Polisiâu a Gweithdrefnau Sir y Fflint*, a atodir fel Atodiad C.

Fe'i lluniwyd fel ymateb cadarnhaol i ganfyddiadau o'r asesiad, gyda'r bwriad o greu dealltwriaeth eang ac eglurder o ran beth mae Cyngor Sir y Fflint yn ei wneud, a sut, mewn perthynas â rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus y Sir. Mae'r llyfryn yn darparu gwybodaeth gychwynnol ynghylch dyletswyddau a phwerau'r Awdurdod Priffyrdd, yn egluro'r Cynllun Blaenoriaethu Llwybrau, ac yna'n darparu'r polisiâu a'r gweithdrefnau mewn perthynas â materion o ran y Map Diffiniol, gorfodaeth a gwaith cynnal a chadw.

FERSIWN NEWYDD O'R TABL DATGANIAD O WEITHREDOEDD

Mae'r Datganiad o Weithredoedd yn nodi'r meysydd blaenoriaeth strategol i'w cyflawni yn ystod cyfnod y CGHT. Ategir y Datganiad o Weithredoedd gan Gynlluniau Cyflenwi Blynnyddol a fydd yn nodi'r rhaglen waith fanwl ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Lluniwyd y Datganiad o Weithredoedd o fewn cyd-destun y llyfryn Polisiâu a Gweithdrefnau gan wneud y tybiaethau a ganlyn:

- Bydd y gyllideb graidd ar gyfer Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn parhau i fod yn gyfyngedig, ac mae'n debygol o leihau ymhellach.
- Nod y tîm Hawliau Tramwy Cyhoeddus yw gweithio mewn partneriaeth yn fewnol ac yn allanol ble bynnag y bo modd ac sy'n fanteisiol, er mwyn ceisio synergedd a gwerth gorau am yr adnoddau sydd ar gael.
- Mae'r Datganiad o Weithredoedd yn seiliedig ar y dystiolaeth o'r asesiad. Fe'i dyluniwyd i gydbwysu dyheadau gyda phragmatiaeth, fel y gall cynlluniau cyflenwi weithio tuag at flaenoriaethau diffiniedig o ran rheolaeth, gwaith cynnal a chadw a gwelliannau, ond gyda realiti'r adnoddau sydd ar gael.
- Mae'r Datganiad o Weithredoedd yn cynnwys bwriadau i geisio cynyddu'r adnoddau sydd ar gael.

	BETH SYDD GENNYM?	BETH SYDD ARNOM EI EISIAU?	SUT ALLWN NI EI GYFLAWNI?	BLAENORIAETH Uchel Canolig Isel
1	Hygyrchedd ffisegol y rhwydwaith			
1.1	Mae pobl ag anableddau'n awyddus i gael gwell mynediad i'r rhwydwaith HTC, yn enwedig ar yr arfordir.	Deall lle mae angen darparu mynediad ychwanegol a darparu cyfleoedd lle mae hynny'n ddichonadwy.	Ymgynghori â defnyddwyr anabl i ganfod eu blaenoriaethau o ran mynediad. Archwilio cyfleoedd lle gellir gwella mynediad i bobl anabl. Hyrwyddo cyfleoedd presennol i grwpiau anabledd.	C
1.2	Rhwydwaith gyda chyflwr arwyneb da yn gyffredinol ac arwyddion ar ymyl y ffordd, ac sydd wedi cael ychydig iawn o	1. Cynnal arwyneb llwybrau mewn cyflwr da. 2. Lleihau nifer y camfeydd ar y rhwydwaith gan ffafrio bylchau neu	1.1 Rhaglen dorri gwair flynyddol. 1.2 Ymateb yn brydlon i adroddiadau am broblemau. 1.3 Arolwg o'r rhwydwaith cyfan.	U

	BETH SYDD GENNYM?	BETH SYDD ARNOM EI EISIAU?	SUT ALLWN NI EI GYFLAWNI?	BLAENORIAETH Uchel Canolig Isel
	gwynion yn ystod ymgynghoriad CGHT 2. Dengys yr asesiad fod problemau gyda: • Camfeydd ar y rhwydwaith sy'n gallu eu gwneud yn llai hygyrch; • Ceir rhyw fath o rwystr ar draean o'r llwybrau (sy'n cynrychioli 9.4% o'r rhwydwaith).	giatiau, fel modd o'i wneud yn fwy hygyrch 3. Rhwydwaith a chanddo gyn lleied o rwystrau â phosib ynghyd â mecanwaith cadarn ar gyfer datrys rhai newydd sy'n codi.	2.1 Gweithio gyda thirfeddianwyr i ddarparu bylchau neu giatiau yn lle camfeydd. 3.1 Gofyn am giatiau neu fylchau mewn unrhyw ffensys newydd. 3.2 Datblygu a dilyn protocol ar gyfer dileu rhwystrau a gorfodaeth.	
1.3	Ceir canran uchel o lwybrau ag arwyddion da ar eu hyd. Fodd bynnag, mae rhai ymatebwyr i'r ymgynghoriad eisiau rhagor o fynegbyst. Yn achos o leiaf tri chwarter o'r llwybrau darperir arwydd lle maent yn gadael ffordd fetlin.	1. Rhwydwaith lle mae'n hawdd i ddefnyddwyr ddilyn y llwybr cywir, sydd felly'n bodloni tirfeddianwyr a defnyddwyr fel ei gilydd. 2. Hyder fod Cyngor Sir y Fflint yn cyflawni ei oblygiadau statudol o ran arwyddion o ffordd fetlin.	1.1 Ymateb yn gyflym i adroddiadau am fynegbyst sydd ar goll. 1.2 Annog tirfeddianwyr i osod arwyddion ar bob llwybr ar eu tir. 1.3 Fel mater o drefn, gwirio mynegbyst lleol pryd bynnag y gwneir gwaith atgyweirio ar lwybrau. 2.1 Sicrhau bod pob lleoliad ddylai gael arwydd wedi'i gofnodi yn CAMS. 2.2 Cynnal arolwg o leoliad pob arwydd a chofnodi unrhyw arwyddion sydd ar goll. 2.3 Datblygu a gweithredu rhaglen ar gyfer gosod arwyddion.	U

	BETH SYDD GENNYM?	BETH SYDD ARNOM EI EISIAU?	SUT ALLWN NI EI GYFLAWNI?	BLAENORIAETH Uchel Canolig Isel
			2.4 Cynllunio ar gyfer gosod rhai newydd ar ddiwedd eu hoes.	
1.4	Byddai marchogion yn hoffi i fwy o lwybrau fod ar gael iddynt oddi ar y ffordd. Mae'r rhwydwaith HTC yn y sir yn cynnwys 115k o lwybrau ceffyl, sy'n cynrychioli cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer reidio a beicio oddi ar y ffordd.	1. Gallu cynyddu cyfran y rhwydwaith sydd ar gael i farchogion a beicwyr. 2. Datblygu llwybrau cylchol ar gyfer marchogion a beicwyr.	1.1 Annog tirfeddianwyr i gyflwyno llwybrau troed fel llwybrau ceffyl neu i roi hawl caniatol iddynt eu defnyddio 1.2 Rhoi blaenoriaeth i hawliadau am lwybrau ceffyl. 2.1 Archwilio cyfleoedd i gysylltu llwybrau ceffyl, gan felly wneud y gorau o'r ddarpariaeth bresennol. 2.2 Ceisio uwchraddio llwybrau troed i fod yn llwybrau ceffyl mewn cydweithrediad â Chynlluniau Teithio Llesol.	I
1.5	Hoffai rhai ymatebwyr i'r ymgynghoriad allu teithio rhwng mannau allweddol drwy gerdded ar lwybrau troed.	Rhwydwaith sy'n addas ar gyfer patrymau defnydd cyfoes, sy'n cyflawni gofynion defnyddwyr ac yn cyfrannu at y posibilïadau o ran Teithio Llesol.	Archwilio cyfleoedd i gysylltu llwybrau troed rhwng mannau allweddol, gan flaenoriaethu'r rheiny sydd hefyd yn cwrdd â meini prawf Teithio Llesol. Gweithio gyda chydweithwyr ym maes cynllunio i sicrhau bod seilwaith gwyrdd yn cael ei adeiladu ym mhob datblygiad.	C
1.6	Mae adnoddau o ran staff yn gyfyngedig ac yn annigonol ar gyfer maint y gwaith.	1. Tîm HTC a chanddo adnoddau digonol. 2. Tîm ymroddedig a brwd o wirfoddolwyr sy'n cefnogi'r nodau ac	1.1 Pennu'r lefelau angenrheidiol o staff ac adnoddau i gyflenwi'r CGHT.	U

	BETH SYDD GENNYM?	BETH SYDD ARNOM EI EISIAU?	SUT ALLWN NI EI GYFLAWNI?	BLAENORIAETH Uchel Canolig Isel
	Ceir tasgau swyddfa ac yn yr awyr agored sydd efallai'n addas i wirfoddolwyr.	amcanion yn y CGHT mewn sawl modd.	1.2 Datblygu achos busnes i wneud cais am adnoddau ychwanegol. 1.3 Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd drwy gydweithredu'n fewnol ac yn allanol. 2.1 Rhoi cynlluniau a rhaglen ar waith ar gyfer uwchsgilio gwirfoddolwyr presennol a recriwtio rhai newydd. 2.2 Gweithio gyda FLVC i archwilio cyfleoedd i wirfoddolwyr drwy grwpiau a phrosiectau presennol. 2.3 Ystyried gweithio mewn partneriaeth gyda NOMS i ddarparu cyfleoedd i'r rheiny sy'n gwneud gwasanaeth cymunedol dan oruchwyliaeth 2.4 Gweithio mewn modd sy'n annog cadw gwirfoddolwr presennol, e.e. darparu amrywiaeth o gyfleoedd gwirfoddoli, darparu cyfleoedd gwirfoddoli ystyrlon, sicrhau bod gwirfoddolwyr yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu a'u gwerthfawrogi, gan wneud y gwaith gwirfoddol yn hwyl. Archwilio cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth â gwasanaethau	

	BETH SYDD GENNYM?	BETH SYDD ARNOM EI EISIAU?	SUT ALLWN NI EI GYFLAWNI?	BLAENORIAETH Uchel Canolig Isel
			mewnol eraill a grwpiau/sefydliadau allanol, i alluogi'r defnydd synergyddol o wirfoddoli.	
1.7	Mae ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn adrodd canfyddiadau o oedi yng ngwaith yr awdurdod o ran delio â materion gorfodaeth. Fodd bynnag, dengys data bod amseroedd ymateb cyffredinol yn gwella.	1. Delio a materion o ran gorfodaeth mewn modd allweddol. 2. Mae rhanddeiliaid yn ymwybodol ba waith gorfodaeth sydd wedi'i wneud. 3. Mae gan y tîm HTC weithdrefnau clir i'w dilyn.	1.1 Neilltuo cyfrifoldebau o ran gorfodaeth yn glir. 1.2 Sicrhau bod yr holl faterion gorfodaeth yn cael eu cofnodi yn CAMS. 2.1 Trwy Exegesis, anfon ymatebion awtomatig, llawn gwybodaeth at achwynwyr wrth weithredu. 3.1 Rhoi gweithdrefnau clir ar waith a monitro eu defnydd ar gyfer delio â materion o ran gorfodaeth, gan gynnwys cyfathrebu â rhanddeiliaid allanol perthnasol.	C
1.8	Mae rhai camfeydd a giatiau wedi'u hadeiladu ar y rhwydwaith heb awdurdod ffurfiol.	Mae'r holl gelfi ar lwybrau wedi'u hawdurdodi neu'n cael eu trin fel rhwystr.	Datblygu a mabwysiadu polisïau ffurfiol sy'n cwmpasu awdurdodi strwythurau ar HTC. Bydd y polisïau hyn yn dilyn yr egwyddor mynediad lleiaf cyfyngol. Cynnal cofnod sydd ar gael yn gyhoeddus o bob strwythur a awdurdodwyd.	U
2	Cofnodi cyfreithiol a newidiadau			
2.1	Mae gan y Map Diffiniol a'r Datganiad ddyddiad perthnasol	1. Map Diffiniol a Datganiad sydd mor gyfredol â phosibl.	1.1 Mynd i'r afael ag unrhyw LEMO sydd heb eu gwneud.	I

	BETH SYDD GENNYM?	BETH SYDD ARNOM EI EISIAU?	SUT ALLWN NI EI GYFLAWNI?	BLAENORIAETH Uchel Canolig Isel
	sef 1978. Mae'r DMS bellach yn cynnwys DMS 1978 ynghyd â'r holl newidiadau unigol a wnaed ers hynny. Mae angen mynd i'r afael â nifer o LEMO sydd heb eu gwneud er mwyn cwblhau newidiadau i'r DMS. Dangosir lleoliadau'r holl lwybrau yn y rhwydwaith ar fap rhyngweithiol ar wefan y Cyngor.	2. DMS sydd ar gael yn rhwydd i'r cyhoedd graffu arno.	1.2 Cadarnhau'r Map Diffiniol a'r Datganiad ac ailgyhoeddi. 2.1 Sicrhau bod unrhyw newidiadau i'r DMS yn cael eu hadlewyrchu'n gywir yn y map rhyngweithiol ar-lein. 2.2 Cyflenwi'r map a'r datganiad sydd newydd eu cadarnhau i bob prif lyfrgell ynghyd â rhannau perthnasol i bob Cyngor Cymuned.	
2.2	Dangosodd yr asesiad nad oedd unrhyw gofnod cyffredinol o anomaleddau. Tra mae cynnydd yn cael ei wneud o ran mynd i'r afael â'r anomaleddau sy'n hysbys, mae llawer i'w wneud eto, ac mae rhagor o anomaleddau'n debygol o ddod i sylw'r tîm.	1. Deall nifer a natur yr anomaleddau ar draws y rhwydwaith. 2. Lleihau nifer yr anomaleddau.	1.1 Adolygu'r DMS cyflawn am anomaleddau a sefydlu rhestr i'a cofnodi. 2.1 Datblygu a gweithredu rhaglen i ddelio â hwy yn ystod oes y CGHT.	I
2.3	Ceir PPO a DMMO y mae rhai ohonynt yn dyddio'n ôl blynyddoedd lawer ers derbyn y ceisiadau.	1. Lleihau'r ôl-groniad o DMMO a PPO i ddim. 2. Bydd PPO a DMMO newydd fel arfer yn cael eu penderfynu o fewn 12 mis o gwblhau cais.	1.1 Cadw rhestrau o geisiadau a dderbynnir yn gyfredol a'u bod ar gael i'r cyhoedd. 1.2 Llunio a rhoi cynllun ar waith i fynd i'r afael â'r holl geisiadau sydd heb eu penderfynu. Bydd y cynllun yn blaenoriaethu mynd i'r afael â	U

	BETH SYDD GENNYM?	BETH SYDD ARNOM EI EISIAU?	SUT ALLWN NI EI GYFLAWNI?	BLAENORIAETH Uchel Canolig Isel
			hawliadau yn dibynnu ar dystiolaeth tystion. 2.1 Neilltuir adnoddau digonol. 2.2 Cefnogir staff perthnasol i ddatblygu sgiliau angenrheidiol. 2.3 Diogelir cymorth digonol gan swyddog cyfreithiol.	
2.4	Mae aelodau staff yn canolbwyntio ar ardaloedd gweithio daearyddol, gydag ychydig o gyfle i ddatblygu arbenigedd mewn pynciau penodol a gall fod anghysondeb o ran ymagweddau.	1. Meithrin arbenigedd ymhlith staff y tîm HTC, fel y gellir mynd i'r afael â phob maes gwaith yn gyflym. 2. Byddir yn delio â'r holl waith, gan gynnwys ceisiadau am orchmynion, yn gyson ar draws y Sir.	1.1 Annog a rhoi cymorth i staff geisio aelodaeth o IPROW ⁴ . 1.2 Cynnal archwiliad sgiliau wedi'i dargedu i gael dealltwriaeth gadarn o fylchau mewn sgiliau. 1.3 Llunio cynllun ar gyfer datblygu a hyfforddi staff a diogelu cyllideb ar gyfer hyfforddi staff. 2.1 Drwy ailstrwythuro, rhoi sylw i'r DMS o fewn cyfrifoldebau swyddogion. 2.2 Llunio protocolau a chanllawiau ymarfer i arwain y gwaith o ddelio â cheisiadau.	U
2.5	Cyllid craidd cyfyngedig gan yr Awdurdod a fydd efallai'n lleihau, sy'n cyfyngu ar yr hyn y gall y tîm HTC ei gyflenwi a'i gyflawni.	Cynyddu'r adnoddau (nid dim ond cyllid) sydd ar gael i'r tîm HTC i'w galluogi i barhau – ac yn ddelfrydol, cynyddu – eu hallbynnau a'u canlyniadau o ran gwaith.	Pennu'r adnoddau angenrheidiol a llunio achos busnes i ymgeisio am gyllid ychwanegol. Archwilio a datblygu cyfleoedd i ganfod cyllid allanol.	C

⁴ Y Sefydliad Hawliau Tramwy a Rheoli Mynediad / 'Institute of Public Rights of Way and Access Management'

	BETH SYDD GENNYM?	BETH SYDD ARNOM EI EISIAU?	SUT ALLWN NI EI GYFLAWNI?	BLAENORIAETH Uchel Canolig Isel
			Monitro datblygiadau posib a allai effeithio ar y llwyth gwaith (fel gweithredu'r dyddiad terfyn) ac, os oes angen, paratoi ceisiadau blaenachubol am adnoddau.	
2.6	Ceir ôl-groniad o waith cyfreithiol, a fydd yn heriol i'w oresgyn gyda lefel yr adnodd staff a ragwelir yn y dyfodol.	1. Y gwaith cyfreithiol pwysicaf i'w gwblhau mewn modd mor amserol â phosib. 2. Gallu bod yn glir i bob rhanddeilydd (mewnol ac allanol) ynghylch y drefn y cyflawnir gwaith cyfreithiol.	1.1 Gweithio gyda'r swyddogion i ddatblygu eu profiad a'u harbenigedd ym maes HTC. 2.1 Datblygu a dosbarthu polisi blaenoriaethu i'r tîm ar gyfer gwaith cyfreithiol at ddefnydd mewnol ac allanol. 2.2 Datblygu protocol gyda'r adran gyfreithiol ar gyfer blaenoriaethu.	U
3	Defnydd mwy pwrpasol o'r rhwydwaith HTC			
3.1	Mae gan y tîm HTC rai cysylltiadau a rhwydweithiau strategol sy'n bodoli eisoes, ond datgelodd yr asesiad nad oedd rhai cysylltiadau wedi'u sefydlu hyd yma, e.e gyda sefydliadau iechyd cyhoeddus.	Mae gan y tîm HTC rwydweithiau cryf a gweithredol ynghyd â chysylltiadau cydweithredol â rhanddeiliaid mewnol ac allanol, lle gall fod rhyw fath o fudd i'r naill a'r llall.	Meithrin a chynnal cysylltiadau strategol a hwyluso rhwydweithiau, ar lefelau strategol a gweithredol.	I/C
3.2	Mae grwpiau a sefydliadau yn bodoli eisoes sy'n hyrwyddo cerdded am resymau iechyd ond nad ydynt, am amryw resymau,	I'r rhwydwaith HTC gael ei ddefnyddio'n weithredol fel adnodd ar gyfer cerdded am resymau iechyd.	Archwilio cyfleoedd i sefydlu llwybrau priodol i hyrwyddo cerdded am resymau iechyd. Datblygu cydweithrediad gyda'r tîm sy'n cyflenwi'r rhaglen Ymarfer ar	C

	BETH SYDD GENNYM?	BETH SYDD ARNOM EI EISIAU?	SUT ALLWN NI EI GYFLAWNI?	BLAENORIAETH Uchel Canolig Isel
	yn manteisio'n llawn ar y rhwydwaith HTC.		gyfer lechyd yn y sir i wneud y gorau o'r cyfle i ddefnyddio HTC ar gyfer y cynllun hwn. Broceru cydweithio rhwng grwpiau cymunedol lleol sy'n gallu cefnogi'r cynllun Ymarfer ar gyfer lechyd yn defnyddio HTC.	
3.3	Dangosodd yr ymgynghoriad fwy o ddiddordeb mewn defnyddio HTC at ddibenion teithio llesol.	I'r rhwydwaith HTC gael ei ddefnyddio a'i hyrwyddo lle'n briodol ar gyfer teithio llesol.	Archwilio cyfleoedd i ganfod llwybrau priodol ar gyfer cerdded neu feicio neu ar gyfer teithio llesol. Gweithio gyda swyddogion eraill y Cyngor i ymgorffori llwybrau cyhoeddus o fewn Rhwydwaith Integredig Teithio Llesol, gan gymryd cyfleoedd i uwchraddio llwybrau i fod yn llwybrau ceffyl lle y bo'n bosibl. Cynnwys llwybrau Teithio Llesol ar y map rhyngweithiol.	I
4	Hyrwyddo a gwybodaeth			
4.1	Dangosodd yr ymgynghoriad ddiffyg ymwybyddiaeth cyffredinol o'r llwybrau a hyrwyddir a'r caniatadau.	I'r HTC gael eu defnyddio'n briodol gan ddefnyddwyr ledled y rhwydwaith.	Gwella'r wybodaeth am y rhwydwaith llwybrau a hyrwyddir. Datblygu gwybodaeth nid yn unig am leoliad y llwybrau ond sut y dylid eu defnyddio.	U
4.2	Dangosodd yr ymgynghoriad beth defnydd amhriodol o'r HTC gan feicwyr.	Gostyngiad mewn defnydd anghyfreithlon o lwybrau troed gan feicwyr a marchogion.	Gwella gwybodaeth sy'n cael ei thargedu ynghylch llwybrau a	I

	BETH SYDD GENNYM?	BETH SYDD ARNOM EI EISIAU?	SUT ALLWN NI EI GYFLAWNI?	BLAENORIAETH Uchel Canolig Isel
			hyrwyddir ar gyfer marchogion a beicwyr. Darparu arweiniad clir ar-lein ynghylch ffynonellau gwybodaeth eraill. Datblygu a hyrwyddo llwybrau penodol ar gyfer marchogaeth a beicio oddi ar y ffordd.	
4.3	Dangosodd yr ymgynghoriad nad yw pobl anabl yn ymwybodol o HTC hygyrch ac nad ydynt at ei gilydd yn eu defnyddio.	Mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o HTC gan ddefnyddwyr anabl.	Gwella'r ddarpariaeth o wybodaeth a dargedir yn benodol at bobl ag anabledau.	I
4.4	Nid oes unrhyw wybodaeth ar gael ar hyn o bryd ar wefan yr awdurdod ar gyfer rheolwyr tir, eu hawliau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â HTC ar eu tir. Ymddengys fod galw gan reolwyr tir am ragor o wybodaeth. Mae'n bwysig i ddefnyddwyr HTC fod yn ymwybodol o'u hawliau a sut i ddefnyddio HTC mewn modd cyfrifol.	1. Rheolwyr tir a defnyddwyr i fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau, ac ymddwyn yn gyfatebol. 2. Mae defnyddwyr HTC yn trin yr HTC a'r tir a'r terfynau cyfagos gyda pharch. 3. Bydd gan ymgeiswyr am newidiadau i'r rhwydwaith ffynhonnell barod o wybodaeth sy'n benodol i'r prosesau yn Sir y Fflint.	1.1 Datblygu perthynas well rhwng y tîm a chynrychiolwyr tirfeddianwyr, a datblygu gwybodaeth ar y cyd ar gyfer rheolwyr tir. 1.2 Darparu gwybodaeth ar-lein ar gyfer tirfeddianwyr neu ddarparu cysylltiadau â safleoedd eraill a chanddynt gyngor o ansawdd da. 2.1 Datblygu a hyrwyddo gwybodaeth i ddefnyddwyr HTC ynghylch y cyfrifoldebau wrth ddefnyddio HTC. 3.1 Datblygu a chyhoeddi cyfres o nodiadau cyngor ar y wefan ar gyfer	U

	BETH SYDD GENNYM?	BETH SYDD ARNOM EI EISIAU?	SUT ALLWN NI EI GYFLAWNI?	BLAENORIAETH Uchel Canolig Isel
			darpar ymgeiswyr ar gyfer PPO a DMMO.	
4.5	Ychydig iawn o wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd i bobl sy'n chwilio gwefan y Cyngor.	Gallu sicrhau bod gwybodaeth berthnasol ar gael yn defnyddio dull sy'n fwy a mwy poblogaidd ymhlith y cyhoedd.	Archwilio dichonoldeb gwelliannau i'r map rhyngweithiol ar wefan y Cyngor e.e. mapiau Teithio Llesol, data GIS CAMS a darnau o'r mapiau diffiniol. Hyrwyddo a hysbysu pobl ynghylch y wybodaeth am y seilwaith y gellir ei gweld yn system Gwe CAMS.	I
4.6	Awgrymodd yr ymgynghoriad nad yw rhai rhanddeiliaid allanol yn deall sut y mae'r Cyngor yn blaenoriaethu ei waith cynnal a chadw a gwella.	Eglurder i'r tîm HTC a'i randdeiliaid o ran sut y mae gwaith ar y rhwydwaith HTC yn cael ei flaenoriaethu a'i gyflenwi.	Datblygu, dosbarthu a sicrhau bod gweithdrefnau a safonau ar gael ar gyfer ymateb i faterion a adroddwyd.	C
5	Gwaith strategol			
5.1	Mae CGHT cyntaf Sir y Fflint wedi dod i ben; mae'r ail CGHT yn darparu cyfleoedd newydd ar gyfer arwain cyfeiriad gwaith yr HTC yn y sir.	Er mwyn i'r CGHT ddarparu cyfeiriad strategol clir a fframwaith ar gyfer yr holl waith a wneir gan dîm HTC Sir y Fflint.	1.1 Gweithio mewn modd rhagweithiol, yn defnyddio'r CGHT i gael arweiniad. 1.2 Adolygu cynnydd yn rheolaidd ac adrodd i'r FfMLI a'r Cabinet. 1.3 Datblygu Cynlluniau Cyflenwi Blyneddol sydd wedi'u targedu'n llawn, yn seiliedig ar y DoW.	U
5.2	Ar hyn o bryd, ceir polisïau ar gyfer rhai ond ddim bob agwedd ar faes y tîm HTC, a gall rhai o'r rhain fod wedi dyddio.	Arweiniad strategol a gweithredol clir ar gyfer y tîm staff ac eraill ynghylch sut y bydd y tîm HTC yn gweithio.	Datblygu, adolygu a diweddarau polisïau i sicrhau bod meysydd allweddol yn cael eu cwmpasu a'u bod yn gyson, gan ymgynghori	U

	BETH SYDD GENNYM?	BETH SYDD ARNOM EI EISIAU?	SUT ALLWN NI EI GYFLAWNI?	BLAENORIAETH Uchel Canolig Isel
			gyda'r FfMLI a'u mabwysiadu gan y Cyngor.	
5.3	Mae potensial i gryfhau cyfathrebu ar draws sbectrwm rhanddeiliaid y tîm HTC. Mae rhai rhanddeiliaid yn adrodd ar hyn o bryd nad ydynt yn deall sut y mae'r tîm yn gweithio neu pam fo gwaith penodol yn cael ei wneud.	I'r holl randdeiliaid allweddol ddeall gwaith y tîm HTC, a chael perthynas gref ag unigolion yn y tîm. I randdeiliaid allweddol gael y wybodaeth y mae ei hangen arnynt i hyrwyddo achos y tîm HTC.	Meithrin a chynnal dull cyfathrebu cryf gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Cyngorwyr, defnyddwyr a thirfeddianwyr. Datblygu a chyhoeddi ar y wefan cyfres lawn o wybodaeth am bolisïau gweithio'r tîm.	C
5.5	Mae adnoddau staff yn gyfyngedig ac yn annigonol ar gyfer maint y gwaith, ac maent yn gwerthfawrogi'r gwaith a wneir gan wirfoddolwyr ar hyn o bryd. Ceir tasgau yn y swyddfa ac yn yr awyr agored sydd efallai'n addas ar gyfer gwirfoddolwyr.	I wneud y gora o'r adnodd gwirfoddoli posibl, mewn modd sy'n gweithio ar gyfer y tîm staff HTC, ei bartneriaid a'r gwirfoddolwyr.	Creu a gweithredu strategaeth wirfoddoli, o bosib gyda FLVC, gan gynnwys ystyried cyfleoedd cydweithredol.	U
5.6	Defnyddir gwybodaeth yn seiliedig ar GIS yn CAMS ar hyn o bryd, ond gellid gwneud gwell defnydd ohoni i gefnogi cynllunio strategol yng nghyswllt gwaith y tîm HTC.	1. Mae gan yr aelodau tîm HTC y sgiliau i wneud defnydd o GIS yn eu rolau. 2. Mae GIS ar gael i aelodau tîm. I wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael, gan hwyluso gwaith y tîm a'i ganlyniadau. 3. Gwneud defnydd llawn o CAMS.	1.1 Hyfforddi staff i ddefnyddio GIS fel offeryn rheoli a phenderfynu rhagweithiol. 2.1 Bydd platfform GIS ar gael i bob aelod o'r tîm. 3.1 Penodi swyddog arweiniol i fod yn bennaf gyfrifol am gynnal a chadw CAMS.	I
6	Cynllunio a chyflawni tasgau allweddol			
6.1	CAMS yw'r brif gronfa ar gyfer data'r rhwydwaith ond nid yw	1. Cael data mor gyfredol â phosib am y rhwydwaith wedi'i storio yn CAMS.	1.1 Hyfforddi'r holl staff i ddefnyddio CAMS gyda sesiynau	U

	BETH SYDD GENNYM?	BETH SYDD ARNOM EI EISIAU?	SUT ALLWN NI EI GYFLAWNI?	BLAENORIAETH Uchel Canolig Isel
	dwy ran o dair o'r rhwydwaith wedi'u harolygu ers 2010, sy'n gwneud y system yn llai dibynadwy fel offeryn cynllunio strategol.	2. Ail-arolygu'r rhwydwaith cyfan o leiaf unwaith dros gyfnod o dair blynedd gyda chipolygon yn seiliedig ar arolygon blynyddol o samplau.	diweddar/atgoffa am bwysigrwydd cofnodi data mewn modd trylwyr a chyson. 2.1 Trefnu arolwg o 67% o'r rhwydwaith na chafodd ei arolygu yn 2017, 33% 18/19 a 34% 19/20. 2.2 Ailgyflwyno monitro rhannol reolaidd o'r rhwydwaith (o leiaf 10% y flwyddyn). 2.3 Cynllunio i ail-arolygu'r rhwydwaith cyfan 3 gwaith erbyn diwedd cyfnod y CGHT.	
6.2	Mae tasgau'n cael eu hadrodd a'u cyflawni gan nifer o wahanol unigolion mewn amryw sefydliadau annibynnol, sydd o bosib yn arwain at golli data a/neu ddyblygu ymdrechion.	1. Hyder y bydd yr holl faterion a adroddir a'r holl waith a gyflawnir yn cael eu cipio yn CAMS. 2. Eglurder a hyder i ddefnyddwyr y gweithredir ar eu hadroddiadau yn unol â'r protocolau cyhoeddedig.	1.1 Cyswllt rheolaidd rhwng pawb sy'n ymwneud â HTC Sir y Fflint. 1.2 Datblygu fformat syml a chyffredin a fydd yn galluogi bwydo cofnodion yn ôl i'r tîm HTC i'w rhoi i mewn i CAMS. 2.1 Parhau i ddatblygu'r system adrodd ar-lein. 2.2 Datblygu a gweithredu systemau ar gyfer sicrhau adborth i ddefnyddwyr sy'n adrodd problemau.	U
7	Datblygu sefydliadol			
7.1	Mae'r tîm HTC yn ymgymryd â phroses o newid sefydliadol fel	Rolau, cyfrifoldebau a rhaglenni gwaith clir ar gyfer yr holl aelodau tîm HTC, gan gynnwys neilltuo	Adolygu rolau a chyfrifoldebau arweiniol o ran tasgau allweddol ar gyfer aelodau tîm.	U

	BETH SYDD GENNYM?	BETH SYDD ARNOM EI EISIAU?	SUT ALLWN NI EI GYFLAWNI?	BLAENORIAETH Uchel Canolig Isel
	rhan o newidiadau ehangach o fewn yr Awdurdod.	cyfrifoldebau arweiniol i unigolion ar gyfer meysydd gwaith penodol, sy'n arwain at ddull rhesymegol ac effeithiol o rannu llwyth gwaith y tîm.		
7.2	Mae tymor y FfMLI blaenorol wedi dod i ben. Mae proses ar fynd i sefydlu FfMLI ar y cyd â Wrecsam.	1. FfMLI sy'n gweithio'n dda ac sy'n effeithiol sy'n gallu cefnogi a hyrwyddo'r CGHT. 2. FfMLI sy'n gallu cymryd trosolwg strategol.	1.1 Sefydlu'r FfMLI. 2.1 Rôl y FfMLI i fod yn un strategol yn bennaf gydag is-grwpiau'n cael eu sefydlu ar gyfer mynd i'r afael â chwestiynau lleol yn unig,	U
7.3	Mae adnoddau Sir y Fflint yn gyfyngedig. Ceir cynsail o ran awdurdodau'n gweithio ar y cyd, sy'n cynnwys adnoddau o ran staff.	Cyflenwi a chyflawni cymaint â phosib o fewn yr adnoddau sydd ar gael.	Archwilio'r cyfleoedd ar gyfer gwaith cydweithredol agosach gydag awdurdod cyfagos a rhai sy'n gorgyffwrdd.	C
7.4	Cyllid craidd cyfyngedig gan yr Awdurdod a fydd efallai'n lleihau, sy'n cyfyngu ar yr hyn y gall y tîm HTC ei gyflenwi a'i gyflawni.	Cynyddu'r adnoddau (nid dim ond cyllid) sydd ar gael i'r tîm HTC i'w galluogi i barhau – ac yn ddelfrydol, cynyddu – eu hallbynnau a'u canlyniadau o ran gwaith.	Archwilio a datblygu cyfleoedd ar gyfer canfod adnoddau ychwanegol, gan gynnwys cyllid allanol ar gyfer prosiectau, a gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill yn y sector statudol a gwirfoddol.	U

